S4/C

2007

# Adroddiad Blynyddol
# Annual Report



## Deddf Darlledu 1990

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol S4C i'r Senedd yn sgîl Paragraff 13(1) i Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (c.42).

Adroddiad Blynyddol S4C 2007

11 Mehefin 2008

## Broadcasting Act 1990

The Annual Report for S4C is presented to Parliament pursuant to Paragraph 13(1) to Schedule 6 of the Broadcasting Act 1990 (c.42).

S4C Annual Report for 2007

11 June 2008

# Cynnwys
# Contents


| | | |
|---|---|---|
| 04 | Cyflwyniad y Cadeirydd | Introduction by the Chair |
| 10 | Aelodau Awdurdod S4C | Members of the S4C Authority |
| 16 | Strwythur Trefniadol | Organisational Structure |
| 18 | Rôl Awdurdod S4C | The Role of the S4C Authority |
| 20 | Adroddiad y Prif Weithredwr | Chief Executive's Report |
| 24 | Y Gwasanaeth Rhaglenni | The Programme Service |
| 40 | Gwasanaethau Ychwanegol | Additional Services |
| 42 | Cyfathrebu | Communications |
| 44 | Hyfforddiant a Datblygu | Training & Development |
| 48 | Cynllun Corfforaethol 2007 | Corporate Plan 2007 |
| 54 | Cydymffurfiaeth Rhaglenni | Programme Compliance |
| 60 | Ymchwil | Research |
| 68 | Gwobrau | Awards |


## Tablau / Tables


| | | |
|---|---|---|
| 52 | Targedau a Chanlyniadau Gwasanaeth 2007 | Service Targets & Results 2007 |
| 64 | Cyfran a Chyrhaeddiad 2007 | Share and Reach 2007 |
| 65 | Gwerthfawrogiad o Raglenni | Appreciation of Programmes |
| 66 | 30 Rhaglen Uchaf (Cymraeg a Saesneg) | Top 30 Programmes (Welsh and English) |

# Cyflwyniad
# y Cadeirydd

# Introduction by the Chair

John Walter Jones



# Cyflwyniad y Cadeirydd

John Walter Jones

Ar nos Iau Tachwedd 1af 1982 croesawodd Owen Edwards, Prif Weithredwr y sianel ni'r gwylwyr i S4C am y tro cyntaf. Chwarter canrif yn ddiweddarach yr un yw'r croeso, ac y mae bellach yn ymestyn ymhell tu hwnt i ffiniau Cymru, ac yn ystod Tachwedd 2007 cafwyd cyfle i nodi datblygiad yr hyn a ddechreuodd fel arbrawf ac sydd bellach yn rhan o ecoleg darlledu cyhoeddus yng Nghymru. Cymerwch gam yn ôl a cheisiwch ddychmygu Cymru a darlledu Cymraeg heb S4C—ydi, mae yn anodd os nad yn amhosibl.

Aeth llawer o ddŵr dan y bont yn ystod y chwarter canrif, a daeth ton ar ôl ton o newid i natur darlledu. Nid yw'r gwylwyr yn teimlo dyletswydd i wylio S4C fel yr oeddent 25 mlynedd yn ôl. Heddiw mae S4C yn cystadlu gyda channoedd o sianeli eraill am eu teyrngarwch. Ond yr hyn sydd yn dal yn unigryw yw y ffaith mai'r briod iaith o ran cysylltu â'r gynulleidfa yw'r Gymraeg. Heb na gorfodaeth na gofyn deddfwriaethol mae S4C wedi chwarae rhan aruthrol yn natblygiad yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae yn gwbl briodol fy mod i yn cofnodi ein diolch ni oll fel gwylwyr i bawb sydd wedi cyfrannu at, a galluogi S4C i wneud hyn. Ar bob cyfri mynegwch farn ar gynnwys a natur rhaglenni—mae hynny yn beth iach iawn, ond fe ofynnaf eto: sut byddai pethau heb S4C?

Gwahanol yn sicr yw un ateb. Mae S4C wedi bod yn newid yn gyson. Dyw sefyll yn llonydd ddim yn opsiwn. A newid fydd hanes y sianel i'r dyfodol heb os. Mae dau newid mawr ar y gorwel: datblygiadau o ran darpariaeth i blant a phobl ifanc, a'r newid o'r gwasanaeth analog i'r oes ddigidol. Y naill yw y rheswm am y llall—mae'r oes ddigidol yn rhoi cyfle unigryw i ni rymuso ein darpariaeth i garfan holl bwysig o gynulleidfa heddiw fydd yn gonglfaen cynulleidfa fory gobeithio. Wedi i'r Awdurdod ymgynghori yn helaeth yn ystod 2007 ar y bwriadau o ran gwasanaeth i blant a phobl ifanc, braf oedd derbyn unfrydedd barn ar y syniadau. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth yma lwyddo. Mae yn wasanaeth sydd â'r potensial i gael effaith enfawr ar ddyfodol yr iaith Gymraeg. Gallwn ymfalchïo fod S4C unwaith eto yn flaengar ei chyfraniad i ddyfodol y Gymraeg.

Yn wahanol i ddarlledwyr mewn ieithoedd mwyafrifol, mae'n amhosib i ddarlledwr mewn iaith frodorol fynd allan i brynu rhaglenni gwreiddiol. Rhaid eu cynhyrchu yn lleol. Ac i lwyddo, rydym yn ddibynnol ar egni, gweledigaeth ac ymroddiad pawb sydd yn cyflawni ein hanghenion. Mae nifer y gwobrau a ddaeth i ran rhaglenni'r sianel yn tystio i allu'r rhai sy'n cynhyrchu'r rhaglenni. Mae'r cydweithio gyda'r sector annibynnol, y BBC ac ITV yn allweddol i lwyddiant y sianel ac enw da'r diwydiant darlledu sydd bellach yn ymestyn ymhell tu hwnt i ffiniau Cymru. Braf meddwl fod yr iaith Gymraeg ac S4C wedi rhoi cyfle i Gymry ddatblygu talent a meithrin sgiliau sydd bellach yn cael eu cydnabod mor eang.

# Introduction by the Chair

John Walter Jones

On Thursday November 1st 1982 Owen Edwards, S4C's Chief Executive, welcomed viewers to S4C for the first time. A quarter of a century later the welcome is just as warm, and it now extends far beyond Wales. During November 2007 the channel's 25th anniversary was an opportunity to mark the development of what started as an experiment and which is now entrenched as part of the public service broadcasting ecology in Wales. Take a step back and try to imagine Wales and Welsh broadcasting without S4C—yes, difficult if not impossible.

A lot of water has passed under the bridge during the past twenty five years bringing with it wave after wave of change to the world of broadcasting. Viewers no longer have the original sense of "duty" to the channel as they did 25 years ago. Today S4C competes with literally hundreds of channels for their loyalty. However S4C is still unique, as the language used for communicating with our audience is Welsh. Without compulsion or legislative requirement S4C has played an enormous part in the development of the Welsh language and the culture of Wales and it is perfectly appropriate for me to record our thanks, as viewers, to everyone who has contributed towards and enabled S4C to achieve this. By all means express your opinions on the content and nature of our programmes—it is healthy to do so, but I will pose the question again: what would television in Wales be like without S4C?

Very different would be one answer. S4C has changed constantly. Standing still is not an option. And without doubt the channel will change again in the future. There are already two changes on the horizon: developments in relation to our provision for children and young people, and the switchover from analogue to digital. The one is the reason for the other—digitisation gives us an unique opportunity to strengthen our provision for a very important part of today's audience that we hope will be the cornerstone of tomorrow's audience. An unanimous response was received following the Authority's comprehensive consultation during 2007 on the proposals relating to the service for children and young people. This service must succeed. It is a service which has the potential to have an enormous effect on the future of the Welsh language. We can be proud that S4C is once again leading the way in its contribution to the future of the language.

In contrast to majority language broadcasters, it is impossible for indigenous language broadcasters to go out and buy original programmes. They must be produced locally. And to succeed we depend on the energy, vision and dedication of all those who fulfil our programming requirements. The number of prizes won by the channel is testament to the ability of those who produce the programmes. Collaboration with the independent sector together with the BBC and ITV is critical to the success of the channel and extends the broadcasting industry's reputation far beyond the Welsh border. The Welsh language and S4C have given many people in Wales an opportunity to develop their talents and nurture skills that are now widely acknowledged.

# Cyflwyniad y Cadeirydd

John Walter Jones

Pleser bob amser yw clywed barn y gwylwyr a diolch i bawb ddaeth i'n Nosweithiau Gwylwyr ledled Cymru. Cymru mewn cyd-destun llawer ehangach oedd maes llafur y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a mis Ionawr eleni cafwyd cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar sefyllfa S4C yn nhermau'r sialensiau y mae globaleiddio yn eu creu i ddarlledwyr. Daeth parch darlledwyr ieithoedd brodorol o bedwar ban byd i S4C yn amlwg mewn cynhadledd yn Seland Newydd ym mis Mawrth eleni. Mae S4C wedi bod yn darlledu yn hirach na'r un darlledwr arall mewn iaith frodorol, a bu cynnydd a gweledigaeth S4C yn amlwg yn hwb i eraill.

Aeth Ray Gravell a'i dalent a'i Gymreictod i bedwar ban a daeth Wil Sam a'i filltir sgwâr, ei hiwmor a'i llên i bedwar ban Cymru. Diolch am eu cyfraniadau unigryw. Y sialens i S4C yw adlewyrchu Cymru a Chymreictod amlochrog ac ar brydiau gwahanol Grav a Wil Sam. Tasg anodd ond nid amhosib. Dau a wynebodd y sialens o wneud hyn oedd Gwyn Erfyl a Deryk Williams. Roeddent yn rhan o seilwaith darlledu Cymraeg, a rhoddodd y ddau oes i'r diwydiant. Mae'n anodd llenwi'r bwlch a adawyd ganddynt. Mawr yw ein diolch am eu cyfraniad.

Fel arfer mawr yw fy niolch i aelodau Awdurdod S4C am eu hymroddiad a'u teyrngarwch. Ail apwyntiwyd Syr Roger Jones am dymor arall ac ymunodd Bill Davies a Cenwyn Edwards â ni. Daw Cenwyn â blynyddoedd o brofiad amhrisiadwy o'r byd darlledu, ac mae profiad proffesiynol Bill o faterion adnoddau dynol a'i ddiddordeb ym myd y theatr yn amhrisiadwy. Croeso hefyd i Phil Williams, Ysgrifennydd yr Awdurdod, ymunodd â ni fis Hydref, a mawr ddiolch i Alun Thomas am lanw bwlch cyn hynny.

Rydym bellach ar drothwy y cam mawr i'r oes ddigidol. Wrth ddiolch i Brif Weithredwr S4C Iona Jones a'i chriw ymroddgar dwi yn manteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda iddynt wrth baratoi i wynebu her yr oes ddigidol. Mae eu ymroddiad yn ail i'w le ac fel Awdurdod mae'n gysur medru ymddiried yn eu gweledigaeth.



# Introduction by the Chair

John Walter Jones

It is always a pleasure to hear what the audience has to say and I would like to thank everyone who attended our Viewers' Evenings across Wales. Wales in its wider context was the subject of the Welsh Affairs Select Committee inquiry and an opportunity arose in January this year to give evidence to the Committee on the globalisation challenges facing S4C and broadcasters. Respect for S4C from indigenous broadcasters from all over the world was made apparent in a conference in New Zealand in March of this year. S4C has been broadcasting in an indigenous language longer than anyone else, and the growth and vision of S4C has been an obvious boost to others.

One whose talent and Welshness took him to the four corners of the world was Ray Gravell who's death in 2007 touched the nation. Another great loss was Wil Sam who introduced the humour and literature of his corner of Wales to all parts of the country. We are grateful for their unique contributions. The challenge for S4C is to reflect Grav and Wil Sam's multi-dimensional and at times different Wales and Welshness. A difficult but not impossible task. Two who faced this challenge were Gwyn Erfyl and Deryk Williams. They were a part of the foundation of Welsh medium broadcasting, and both gave a lifetime's service to the industry. Their passing is a great loss. We thank them for their contribution.

As usual I am very grateful to the members of the S4C Authority for their dedication and loyalty. Sir Roger Jones has been reappointed for a second term and Bill Davies and Cenwyn Edwards have joined us. Cenwyn brings with him years of invaluable experience from the world of broadcasting, and Bill's professional experience of human resources matters and interest in the theatre is invaluable. We also welcome Phil Williams, Secretary to the Authority, who joined us in October, and we are very grateful to Alun Thomas for his support prior to Phil's appointment.

We are now on the threshold of the digital age. I would like to take this opportunity to thank S4C's Chief Executive Iona Jones and her dedicated staff and also wish them well as they prepare to face the challenge of the digital age. Their dedication is second to none and it is reassuring for the Authority to be able to trust their vision.



# Aelodau Awdurdod S4C

Mae Cadeirydd ac Aelodau Awdurdod S4C yn cael eu penodi gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**John Walter Jones OBE**
**Cadeirydd**
**01/04/2006—31/03/2010**

Cyn was sifil yn y Swyddfa Gymreig yw John, ac am yn agos i 25 mlynedd, bu ei brif gyfrifoldebau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Ef, ym 1988, gafodd y dasg o sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a hyd ei ymddeoliad yn 2004, bu'n Brif Weithredwr arno. Bu'n aelod o weithgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynghori ar y newid o deledu analog i ddigidol. Mae'n weithgar gyda Mudiad Ysgolion Meithrin, Sgowtiaid Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008. Fe'i hurddwyd gyda'r Wisg Wen yn Eisteddfod Casnewydd 2004. Mae'n Gymrawd er Anrhydedd Prifysgol Bangor, ac yn aelod o Fforwm Rhanddalwyr Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Cyn ei benodi yn Gadeirydd bu'n aelod o'r Awdurdod ers 01/09/2004.

**Bill Davies**
**16/07/2007—15/07/2011**

Mae gan Bill dros 37 mlynedd o brofiad ym maes rheolaeth personél ac adnoddau dynol yng Nghymru. Ef oedd Cyfarwyddwr Personél Cyngor Gwynedd am dros 10 mlynedd, ac ar hyn o bryd ef yw Rheolwr Personél Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin. Gweithiodd i Awdurdod Dŵr Cymru fel Rheolwr Personél dros Ogledd Cymru a chyn hynny roedd yn Swyddog Cysylltiadau Gweithwyr yng Ngwaith Dur Port Talbot. Mae Bill yn Aelod Lleyg yn Gynrychiolydd Cyflogwyr ar y Gwasanaeth Tribiwnlys Cyflogaeth, ac yn Asesydd Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n Aelod Siartredig o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad. Mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol o Theatr Gwynedd ym Mangor. Bill yw Cadeirydd Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth Awdurdod S4C.

**Eira Davies**
**01/11/2001—31/10/2009**

Bu Eira'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac mae ganddi brofiad eang ac amrywiol ym myd darlledu, addysg a busnes. Treuliodd ei gyrfa gynnar fel athrawes a darlithydd cyn ymuno â'r cyfryngau fel cyfarwyddwr Champion FM a Radio'r Glannau, rhan o grŵp radio Sain y Gororau. Bu'n aelod o Gomisiwn Richard fu'n gwerthuso pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n aelod o Fwrdd Corfforaethol Coleg Llandrillo. Mae Eira yn Gadeirydd Pwyllgor Cynnwys Awdurdod S4C.

**Cenwyn Edwards**
**16/07/2007—15/07/2011**

Mae Cenwyn wedi dal nifer o swyddi uwch yn HTV gan gynnwys Rheolwr Rhaglenni Ffeithiol, Rheolwr Cynyrchiadau Gogledd Cymru a Phennaeth Materion Cyfoes. Dechreuodd ei yrfa fel gohebydd newyddion a newyddiadurwr gwleidyddol. Ar ôl 20 mlynedd yn ITV Cymru symudodd i S4C fel Pennaeth Cyd-gynhyrchu a Golygydd Comisiynu Ffeithiol gyda chyfrifoldeb gweithredol dros S4C2 a materion gwleidyddol. Yn fwy diweddar bu'n Gyfarwyddwr Teledu gyda Tinopolis ac arweiniodd ddatblygiad strategol y cwmni, gan ymgorffori cynhyrchu teledu, gweithgareddau rhyngweithiol a chyfryngau newydd. Ar hyn o bryd mae'n gweithredu fel Ymgynghorydd Cyfryngau ar gyd-gynyrchiadau rhyngwladol. Mae Cenwyn yn aelod o Bwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg a Personél a Chydnabyddiaeth Awdurdod S4C.

# Members of the S4C Authority

The Chair and S4C Authority Members are appointed by the Secretary of State for Culture, Media and Sport.

### John Walter Jones OBE
Chair
01/04/2006—31/03/2010

John previously worked as a civil servant in the Welsh Office and for nearly 25 years his main responsibilities related to the Welsh language. In 1988 he had the task of establishing the Welsh Language Board and until his retirement in 2004 he was its Chief Executive. He was a member of the DCMS Viewers' Panel on digital switchover. He actively supports the Welsh nursery movement, Mudiad Ysgolion Meithrin, Welsh Scouts and the 2008 Cardiff National Eisteddfod. He was ordained as a member of the Gorsedd at the 2004 Newport Eisteddfod. He is a Fellow of Bangor University and a member of the Stakeholder Forum of the University of Wales Institute, Cardiff. Before his appointment as Chair John was a member of the Authority since 01/09/2004.

### Bill Davies
16/07/2007—15/07/2011

Bill has over 37 years experience of personnel and human resources management in Wales. He was Director of Personnel at Gwynedd County Council for over 10 years, and is currently Personnel Manager at Careers Wales North West. Previously, Bill worked for the Welsh Water Authority as Divisional Personnel Manager for North Wales, and before that, he was an Employee Relations Officer at the British Steel Corporation in Port Talbot. Bill is a Lay Member as an Employer Representative at the Employment Tribunals Service and an Independent Assessor for the Welsh Assembly Government. He is a Chartered Member of the Chartered Institute of Personnel and Development. He is a Non-Executive Director of Theatre Gwynedd in Bangor. Bill is chair of the S4C Authority Personnel and Remuneration Committee.

### Eira Davies
01/11/2001—31/10/2009

Eira has worked in both the public and private sectors and has wide experience in broadcasting, education and business. She spent her early career as a teacher and lecturer before moving to broadcasting where she became a director of Champion FM and Coast FM, part of the North Wales Marcher Radio group. She was a member of the Richard Commission which consulted on the powers of the National Assembly for Wales and is currently a member of the Corporation Board of Llandrillo College. Eira is the Chair of the S4C Authority Content Committee.

### Cenwyn Edwards
16/07/2007—15/07/2011

Cenwyn has held several senior roles in HTV including Controller of Factual Programmes, Controller North Wales Production and Head of Current Affairs. He started his career as a news reporter and political journalist. After more than 20 years at ITV Wales he moved to S4C where he was Head of Co-Production and Commissioning Editor Factual with executive responsibility for S4C2 and political affairs. More recently, he was Director of Television at Tinopolis where he led the company's strategic development, incorporating television production, interactivity and new media. He now acts as a Media Consultant on international co-productions. Cenwyn is a member of the S4C Authority Audit and Risk Management Committee and the Personnel and Remuneration Committee.

# Aelodau Awdurdod S4C

### Carys Howell
01/01/2007—31/12/2008

Mae Carys yn ymgynghorydd cysylltiadau cyhoeddus a marchnata wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Bu'n aelod o fwrdd Bwrdd Croeso Cymru. Cyn hynny gweithiodd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru ym meysydd marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, yn Llandudno a Chaerdydd. Ar ôl graddio ymunodd â'r BBC lle bu'n ymchwilydd, yn ohebydd ac yn gynhyrchydd ym myd teledu a radio yng Nghymru, Llundain a Dwyrain Anglia. Mae'n aelod o Bwyllgorau Cwynion a Chydymffurfiaeth a Chynnwys Awdurdod S4C.

### Syr Roger Jones OBE
24/11/2003—23/11/2007

Mae Syr Roger wedi sefydlu sawl busnes uwch-dechnoleg, gan gynnwys Penn Pharmaceuticals yn Nhredegar. Bu'n Gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru tan 31 Mawrth, 2006 a chyn hynny bu'n Lywodraethwr dros Gymru i'r BBC ac yn Gadeirydd i Blant Mewn Angen. Mae'n Gadeirydd Bwrdd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru ac mae'n Llywydd ar yr YMCA yng Nghymru. Mae hefyd yn cadeirio nifer o elusennau yng Nghymru sy'n ymwneud â iechyd, dirywiad cymdeithasol a threftadaeth. Mae'n Gadeirydd y Cyngor ac yn Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe, ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Sefydliad Coleg Crist, Aberhonddu. Mae Syr Roger yn aelod o Bwyllgorau Personél a Chydnabyddiaeth ac Archwilio a Rheoli Risg Awdurdod S4C.

### Dr Chris Llewelyn
01/11/2001—31/10/2009

Mae Chris yn Bennaeth Addysg, Hyfforddiant a Materion Diwylliannol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyn hynny bu'n Bennaeth Ymchwil a Pholisi Defnyddwyr gyda Chyngor Defnyddwyr Cymru. Mae hefyd wedi gweithio yn Nhŷ'r Cyffredin yn San Steffan. Bu'n dysgu ac ymchwilio ym maes gwleidyddiaeth ryngwladol ym Mhrifysgol Abertawe, ac am gyfnod bu'n gweithio yn Sefydliad y Brifysgol Ewropeaidd yn Fflorens, Yr Eidal. Mae'n awdur nifer o gyhoeddiadau ym maes polisi cyhoeddus. Mae Chris yn aelod o Bwyllgorau Cwynion a Chydymffurfiaeth a Chynnwys Awdurdod S4C.

# Members of the S4C Authority

**Carys Howell**
01/01/2007—31/12/2008

Carys is a communications and marketing consultant based in Cardiff. She was previously a member of the board of the Wales Tourist Board. Previously, she worked for the National Trust in Wales in marketing and public relations based in Llandudno and Cardiff. After graduating she joined the BBC where she worked as a researcher, reporter and producer in television and radio in Wales, London and East Anglia. Carys is a member of the S4C Authority Complaints and Compliance Committee and the Content Committee.

**Sir Roger Jones OBE**
24/11/2003—23/11/2007

Sir Roger has established several high-technology businesses including Penn Pharmaceuticals in Tredegar. He was previously the Chair of the Welsh Development Agency until 31 March 2006 and was formerly the BBC National Governor for Wales and Chair of Children in Need. He Chairs the National Trust's Committee for Wales and is President of the YMCA in Wales. He also chairs numerous Welsh charities in the fields of health, social disadvantage and heritage. He Chairs the Council and is Pro Chancellor of Swansea University and is currently Chairman of the Christ College Foundation, Brecon. Sir Roger is a member of the S4C Authority Personnel and Remuneration Committee and the Audit and Risk Management Committee.

**Dr Chris Llewelyn**
01/11/2001—31/10/2009

Chris is Head of Education, Training and Cultural Affairs at the Welsh Local Government Association. He was previously Head of Research and Consumer Policy at the Welsh Consumer Council. He has also worked at the House of Commons. He taught and researched in the field of international politics at the University of Wales, Swansea and was for a time at the European University Institute in Florence, Italy. He is the author of a number of publications in the field of public policy. Chris is a member of the S4C Authority Complaints and Compliance Committee, and the Content Committee.

# Aelodau Awdurdod S4C

### Winston Roddick CB QC
01/09/2004—31/08/2008

Mae Winston yn gweithio fel Cwnsler y Frenhines yng Nghaerdydd a Llundain. Mae hefyd yn Gofiadur Llys y Goron, ac yn Gofiadur Anrhydeddus Caernarfon. Mae ar hyn o bryd yn Arweinydd Cylchdaith Cymru a Chaer. Cafodd ei benodi yn Gwnsler Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1998 am gyfnod o bum mlynedd a chafodd ei anrhydeddu fel Cymrawd Urdd y Baddon (CB) ac fel aelod o'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol 2004. Mae'n Gymrawd ac Is-Lywydd, Prifysgol Aberystwyth. Bu'n aelod o'r Comisiwn Teledu Annibynnol (ITC) am gyfnod cyn ei benodi i'r Cynulliad. Mae'n cadeirio Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Awdurdod S4C.

### Enid Thomas
01/04/1999—31/03/2007

Mae gan Enid gefndir mewn hyfforddiant, datblygiad cyfundrefnau a datblygiad economaidd. Mae'n Gyfarwyddwr ar Taro Consultancy Ltd. Mae'n Ymddiriedolwr Genedlaethol dros Gymru ar Fwrdd RNID ac yn aelod annibynnol o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Bu'n Brif Weithredwr TEC Gogledd Orllewin Cymru ac yn Reolwr Gyfarwyddwr yr Awdurdod Datblygu yng Ngogledd Cymru. Gwasanaethodd hefyd fel Cadeirydd Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru a Chyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru, ac fel aelod o Gyngor Darlledu Cymru a Bwrdd Ymgynghorol Cymru BT.

Daeth tymor Enid fel Aelod o'r Awdurdod i ben ar 31 Mawrth, 2007.

### Rheon Tomos
20/11/2006—19/11/2010

Mae gan Rheon gefndir ym myd Cyfrifeg a Rheolaeth Ariannol gyda chymwysterau CPFA. Mae ganddo brofiad ariannol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac wedi bod yn gysylltiedig am flynyddoedd â nifer o bwyllgorau archwilio, gan gynnwys cyfnod tra'n gweithio fel Cyfarwyddwr i gwmni Deloitte & Touche LLP. Yn 2005 sefydlodd gwmni ymgynghori ar gyfer nifer o gwsmeriaid craidd ar reolaeth ariannol ac aseiniadau trefn lywodraethol. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd CIPFA yn Ne Cymru ac yn aelod o Gyngor Rhanbarthol y Sefydliad. Mae'n Drysorydd Urdd Gobaith Cymru. Mae Rheon yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Awdurdod S4C.

# Members of the S4C Authority

### Winston Roddick CB QC
01/09/2004—31/08/2008

Winston practices as a Queen's Counsel in Cardiff and London. He is also a Crown Court Recorder and Honorary Recorder of Caernarfon. He is currently Leader of the Wales and Chester Circuit. He was appointed Counsel General for the National Assembly for Wales in 1998 for a period of five years and was honoured as a Companion of the Order of the Bath (CB) and ordained as a member of the Gorsedd of the National Eisteddfod in 2004. He is a Fellow and Vice-Chair of Aberystwyth University. He was a member of the Independent Television Commission for a period prior to his appointment at the National Assembly. He is Chair of the S4C Authority Complaints and Compliance Committee.

### Enid Thomas
01/04/1999—31/03/2007

Enid has a background in training and organisational and economic development. She is Director of Taro Consultancy Ltd. She is a National Trustee for Wales on the Board of the RNID and an independent member of the North Wales Police Authority. She previously held posts as Chief Executive of the North West Wales Training and Enterprise Council and Managing Director of the Welsh Development Agency in North Wales. She also served as Chair of both the North Wales Health Authority and the National Council for Education and Training for Wales, as a member of the Broadcasting Council for Wales and BT's Advisory Committee for Wales.

Enid's term as a member of the S4C Authority came to an end on 31 March, 2007.

### Rheon Tomos
20/11/2006—19/11/2010

Rheon has a background in Accounting and Financial Management and is CPFA qualified. Rheon has both public and private sector financial experience and has been associated over many years with a range of audit committees, including a period whilst working as a Director for Deloitte & Touche LLP. In 2005 he set up his own consultancy working for a number of core clients on financial management and governance assignments. He is currently the Chair of CIPFA in South Wales and sits on the Institute's Regional Council. He is also Treasurer of Urdd Gobaith Cymru (the Welsh League of Youth). Rheon is the Chair of the S4C Authority Audit and Risk Management Committee.

# Strwythur Trefniadol

**Cadeirydd Awdurdod S4C**
John Walter Jones (penodwyd 01/04/06)

**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**
Rheon Tomos

**Cadeirydd y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth**
Winston Roddick

**Cadeirydd y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth**
Bill Davies

**Cadeirydd y Pwyllgor Cynnwys**
Eira Davies

**Prif Weithredwr**
Iona Jones (penodwyd 03/10/05)

**Ysgrifennydd yr Awdurdod**
Phil Williams

**Y Bwrdd Cyfarwyddwyr**

**Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol**
Kathryn Morris

**Cyfarwyddwr Darlledu a Dosbarthu**
Arshad Rasul

**Cyfarwyddwr Cyfathrebu**
Huw Rossiter

**Cyfarwyddwr Materion Busnes**
Delyth Wynne Griffiths

**Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol**
Nerys Hopkins

**Cyfarwyddwr Comisiynu**
Rhian Gibson

**Cyfarwyddwr Anweithredol**
Clive Jones

# Organisational Structure

**S4C Authority Chair**
John Walter Jones (appointed 01/04/06)

**Audit & Risk Management Committee Chair**
Rheon Tomos

**Complaints & Compliance Committee Chair**
Winston Roddick

**Personnel and Remuneration Committee Chair**
Bill Davies

**Content Committee Chair**
Eira Davies

**Chief Executive**
Iona Jones (appointed 03/10/05)

**Secretary to the Authority**
Phil Williams

**Board of Directors**

**Director of Finance and Human Resources**
Kathryn Morris

**Director of Broadcast and Distribution**
Arshad Rasul

**Director of Communications**
Huw Rossiter

**Director of Business Affairs**
Delyth Wynne Griffiths

**Director of Commercial and Corporate Policy**
Nerys Hopkins

**Director of Commissioning**
Rhian Gibson

**Non-executive Director**
Clive Jones

# Rôl yr Awdurdod

Mae Awdurdod S4C yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu Cymraeg. Mae'r Awdurdod yn atebol dros allbwn S4C a rheolaeth gywir S4C. Caiff ei ddyletswyddau statudol eu neilltuo iddo gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys paratoi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Mae rolau allweddol yr Awdurdod yn cynnwys y canlynol:

- goruchwylio, cymeradwyo a chraffu rheolaeth gywir S4C;
- sicrhau bod S4C yn darparu gwasanaethau teledu S4C;
- gweithredu fel corff cyhoeddus;
- gweithredu fel rheolydd ynghylch materion penodol.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, swyddogion a staff S4C yw rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu S4C. Nid yw'r Awdurdod yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd. Yn benodol, nid yw'n ymwneud ag unrhyw benderfyniadau comisiynu na phenderfyniadau golygyddol. Mae'r arfer sefydledig hwn yn cynnal annibyniaeth yr Awdurdod, gan sicrhau ei fod yn cael ei gadw hyd braich o benderfyniadau a wneir gan y swyddogion, yn enwedig ynghylch cynnwys rhaglenni.

Ar hyn o bryd, mae S4C yn darparu tri phrif wasanaeth teledu.

Ar **analog**, cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C yw darparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel, mewn gwasanaeth lle mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn cynnwys rhaglenni Cymraeg, ac mae'r rhaglenni a ddarlledir rhwng 18.00 a 22.00 bob dydd yn ystod yr wythnos yn rhaglenni Cymraeg yn bennaf, ac mae'r rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni Cymraeg fel arfer yn rhaglenni sy'n cael eu darlledu, sydd wedi cael eu darlledu neu a fydd yn cael eu darlledu ar Channel 4. (Bydd hyn yn parhau nes bydd y gwasanaeth analog yn cael ei ddiffodd yn 2009/2010.)

**S4C digidol** yw'n prif sianel deledu ddigidol. Y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus presennol yw darparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel mewn gwasanaeth lle mae cyfran sylweddol o'r rhaglenni yn rhaglenni Cymraeg. (Yn ddarostyngedig i orchymyn i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 204(8) Deddf Cyfathrebiadau 2003, disgwylir mai hwn fydd y prif wasanaeth pan fydd y gwasanaeth analog yn cael ei ddiffodd yn 2009/2010 yn dilyn y newid i ddigidol.)

**S4C2** yw'r gwasanaeth digidol a ddarperir gan S4C2 Cyf., is-gwmni i S4C, dan drwydded gan Ofcom. Ar hyn o bryd, mae'r drwydded yn caniatáu i S4C2 ddarlledu rhaglenni ffeithiol o/am Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y dyddiau ac ar yr amserau pan fo'r Cynulliad yn eistedd, ac i ddarlledu rhaglenni amrywiol o natur gwasanaeth cyhoeddus—gan gynnwys darllediadau o rai o brif ddigwyddiadau a gwyliau Cymru.

# The Role of the S4C Authority

The S4C Authority is an independent body which is responsible for the provision of Welsh language television programme services. The Authority is accountable for S4C's output and the proper management of S4C. Its statutory duties are placed upon it by the Communications Act 2003 and the Broadcasting Acts of 1990 and 1996. These duties include the preparation of an Annual Report and Accounts. The key roles of the Authority include the following:

- to oversee, approve and scrutinise the proper management of S4C;
- to ensure that S4C provides S4C's television services;
- to operate as a public body;
- to act as a regulator on certain matters.

It is the responsibility of S4C's Chief Executive, officers and staff to manage and maintain S4C on a day to day basis. This responsibility includes the provision of S4C's television services. The Authority does not participate in any day-to-day decisions. In particular it is not involved in any commissioning or editorial decisions. This long established practice maintains the independence of the Authority and ensures that it remains at arm's length from decisions made by the executive, especially in relation to programme content.

S4C currently provides three main television services.

On **analogue** S4C's public service remit is the provision of a broad range of high quality and diverse programming, in a service in which a substantial proportion of the programmes consist of programmes in Welsh, and the programmes broadcast for viewing between 18.00 and 22.00 every day of the week consist mainly of programmes in Welsh, and, the programmes that are not in Welsh are normally programmes which are being, have been, or are to be broadcast on Channel 4. (This will continue until the analogue service is switched off in 2009/2010.)

**S4C digidol** is our main digital television channel. The current public service remit is the provision of a broad range of high quality and diverse programming in a service in which a substantial proportion of the programmes consists of programmes in Welsh. (Subject to an order to be made by the Secretary of State under section 204(8) of the Communications Act 2003 it is expected that this will become the main service when the analogue service is switched off in 2009/2010 following digital switchover.)

**S4C2** is the digital service provided by S4C2 Cyf., a subsidiary company of S4C, under licence from Ofcom. The licence currently allows S4C2 to broadcast factual programmes from/about the National Assembly for Wales on the days and at the times when the Assembly is in session, and to broadcast various programmes of a public service nature—including broadcasts from some of Wales's main festivals and events.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

# Chief Executive's Report

Iona Jones



# Adroddiad y Prif Weithredwr

Iona Jones

Wrth i Gymru nesáu at y trosglwyddiad i ddigidol, rwy'n hyderus ein bod wedi parhau i wneud y cynnydd angenrheidiol i sicrhau bod S4C yn gallu diwallu'r amryfal alwadau sydd arnom fel darlledwr cyhoeddus.

Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i eglurdeb ein strategaeth a'r amcanion sydd wedi eu cyflawni yn ystod 2007. Mae cynnwys ein gwasanaethau yn ddeniadol, yn berthnasol ac o safon uchel ac rydym wedi deall pwysigrwydd darpariaeth ar-lein er mwyn ehangu dewis a chynyddu cyrhaeddiad.

Mae ein gwylwyr a'r gymuned ddarlledu yn y DU ac yn rhyngwladol yn cydnabod creadigrwydd a rhagoriaeth ein rhaglenni. Mae'r diwyg newydd wedi ei ganmol yn eang ac wedi llwyddo i greu hunaniaeth cysylltiol i'r cynnwys ar bob llwyfan a grymuso ein hymgyrchoedd cyfathrebu.

Rydym yn parhau i geisio adnabod dull safonol o fesur y defnydd o wefannau a gwylio ar fandllydan er mwyn darparu ystadegau swyddogol. Ond ar sail y wybodaeth sydd eisoes ar gael mae nifer y bobl sy'n gwneud defnydd o gynnwys Cymraeg tu allan i'r oriau darlledu ar deledu yn cynyddu. Mae gwasanaethau ar-lein S4C wedi ehangu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae mwy i ddod.

Y sianel deledu sy'n parhau yn brif ganolbwynt ein gweithgareddau. Ym mlwyddyn dathlu pen-blwydd S4C yn 25 oed bu cryn drafod am ddyfodol ieithyddol y sianel. Roeddwn yn falch o'r cyfle bryd hynny ac eto yn y cyflwyniad hwn i danlinellu'r ffaith mai'r iaith Gymraeg yw cyfrwng cyfathrebu S4C ac mai ar sail hynny rydym yn derbyn arian cyhoeddus. Ni allwn anwybyddu'r newidiadau ieithyddol yng Nghymru ac rydym yn ymrwymo i wasanaeth o ragoriaeth greadigol sy'n apelio at wylwyr boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio. Mae ein gwasanaethau mynediad a thechnoleg yn cynnig cyfleoedd i sicrhau hygyrchedd. Rydym yn ystyried fod dysgwyr yn rhan bwysig iawn o'n cynulleidfa ac rydym yn cynnig gwasanaeth ar-lein dyfeisgar sydd heb gyrraedd ei lawn botensial.

Yn gyfochrog â darparu gwasanaeth o safon ac yn gyson ag amcanion corfforaethol, rydym yn credu bod hyrwyddo twf cynaliadwy yn y sector gynhyrchu yn bwysig. Yn brawf o rôl allweddol S4C yn yr economi greadigol mae'r ffaith bod 2,250 o swyddi llawn amser yn cael eu cynnal yng Nghymru a gwerth ychwanegol o £87 miliwn yn cael ei greu ar gorn gweithgaredd y sianel. Mae'r ystadegau'n seiliedig ar 2006 ac ar gael mewn astudiaeth arbennig gan DTZ ac Uned Ymchwil Economaidd Prifysgol Caerdydd. Rydym wedi gostwng y niferoedd sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan S4C fel rhan o gynllun ail-strwythuro ac ers Ionawr 2007 mae Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi bod yn weithredol.

Mae strwythurau newydd hefyd wedi dod i'r amlwg yn y sector gynhyrchu annibynnol. Rydym yn ddibynnol ar gwmnïau allanol i wireddu ein strategaeth ac rwy'n ffyddiog bod seiliau'r sector wedi cryfhau. Amser a ddengys a fydd yr hyder creadigol a'r uchelgais fusnes sy'n bodoli yn arwain at gomisiynau rhaglenni gan ddarlledwyr yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yn ddi-os datblygiad mwyaf arwyddocaol y flwyddyn oedd y penderfyniad i sefydlu tri gwasanaeth newydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc. Byddwn yn cychwyn y ddarpariaeth estynedig i blant oed meithrin ym Mehefin 2008—gwasanaeth Cymraeg, wedi'i ariannu'n gyhoeddus ac yn cael ei greu gan gynhyrchwyr sydd yn cyflawni rhagoriaeth greadigol. Mae'n garreg filltir bwysig sydd â'r potensial i sicrhau llwybr llwyddiant i S4C yn yr oes ddigidol.



# Chief Executive's Report

Iona Jones

As Wales approaches digital switchover, I am confident that we have continued to make the necessary progress to ensure that S4C is able to satisfy the various demands placed on us as a public service broadcaster.

This progress is attributable to the clarity of our strategy and the aims which have been achieved in 2007. The content of our services is attractive, relevant and of high quality and we have understood the importance of on-line provision in order to extend choice and increase reach.

The creativity and excellence of our programmes is recognised by our viewers and the broadcasting community in the UK and internationally. The new brand has been widely acclaimed and has succeeded in creating a coherent identity for content on all platforms and strengthening our communication campaigns.

We continue to try to identify a standard way of measuring the use of websites and viewing on broadband in order to provide official data. However, based on information already available, there is an increase in the number of people making use of Welsh language content outside the television broadcast hours. There has been a significant expansion in S4C's on-line services in the past year and there is more to come.

The television channel remains the main focus of our activities. In S4C's 25th anniversary year there was much debate about the linguistic future of the channel. I said then, and I repeat here, that the Welsh language is S4C's means of communication and that this is the basis on which we receive public money. We cannot ignore the linguistic changes in Wales and we are committed to a service of creative excellence which appeals to viewers regardless of their ability to speak Welsh. Our access services and technology are offering opportunities to ensure inclusivity. We consider learners to be a very important part of our audience and we offer an innovative on-line service which is yet to reach its full potential.

In parallel with the provision of a quality service and in line with corporate aims, we believe in the importance of sustainable growth in the production sector. As proof of the key role of S4C in the creative economy is the fact that 2,250 full time jobs are being sustained in Wales and added value of £87 million is being created as a result of the channel's activities. The statistics are based on 2006 and are available in a special study by DTZ and the Economic Research Unit at Cardiff University. We have reduced the numbers which are directly employed by S4C as part of a re-structuring plan and since January 2007 a new Board of Directors has been operational.

New structures have also emerged from the independent production sector. We rely on external companies to deliver our strategy and I am confident that the sector is on a stronger footing. Time will tell whether or not the creative confidence and business ambition which exist will lead to an increase in the number of programme commissions from UK and international broadcasters.

Without doubt the most significant development of the year was the decision to create three new services aimed at children and young people. The extended provision for nursery aged children will begin in June 2008—a Welsh language service, funded by public money and created by producers who deliver creative excellence. It is an important milestone which has the potential to ensure a successful path for S4C in the digital age.



# Y Gwasanaeth Rhaglenni

Bu 2007 yn flwyddyn o arloesi a darlledu rhaglenni o bwys ar S4C, gyda Chwpan Rygbi'r Byd a datblygiad gwasanaethau ar-lein a'r cyfle i wylio trwy gyfrwng band llydan yn uchafbwyntiau penodol. Yn ogystal, daeth llwyddiant i nifer o raglenni S4C yn ystod y flwyddyn wrth iddynt dderbyn enwebiadau ar gyfer gwobrau a hefyd ennill gwobrau yng Nghymru, y DU ac Ewrop.

Darparwyd cynnwys ar draws ystod o lwyfannau—ar y teledu, trwy gyfrwng gwe ddarlledu byw a thrwy "ffenestr wylio" 35 diwrnod. Datblygwyd rhagor o wefannau sy'n gysylltiedig â rhaglenni, gan wella'r hyn y mae S4C yn ei gynnig i gynulleidfaoedd. Er mwyn sicrhau y gwerth gorau mae S4C yn cynnig cyfle arall i wylio rhai rhaglenni oriau brig o sawl maes.

## Digwyddiadau

Unwaith eto, bu darllediadau byw o ddigwyddiadau diwylliannol a digwyddiadau chwaraeon mawr yn agweddau allweddol yr allbwn rhaglenni S4C yn ystod 2007.

### 1 Cwpan Rygbi'r Byd 2007

**Cwpan Rygbi'r Byd** fu conglfaen blwyddyn ddarlledu S4C. Darlledwyd gwerth dros 70 awr o'r gystadleuaeth, gan gynnwys gwerth 25 awr o ddarllediadau byw a rhaglenni uchafbwyntiau. Darparwyd y rhaglenni o'r bencampwriaeth gan Sunset+Vine Cymru yn dilyn proses dendro gystadleuol.

Roedd y rhaglenni cysylltiedig yn cynnwys **Gwesty Cymru** (SMS), a oedd yn cynnig darllediadau ecsgliwsif y tu ôl i'r llenni o wersyll tîm Cymru. Bu rhifyn arbennig yn ystyried effaith ymadawiad cynnar annisgwyl Cymru o'r bencampwriaeth. Rhoddwyd y cyfle i'r cefnogwyr ddweud eu dweud ar raglen **Monde Gary a Beti** (Sunset +Vine Cymru), er na fu'r rhaglen hon yn un hollol lwyddiannus. Gwelwyd **Jonathan** (Avanti ar gyfer BBC Cymru) a'i dîm yn bwrw golwg hwyliog ar y bencampwriaeth a rhoddodd **Rygbi 100%** (Cwmni Da) flas o'r gystadleuaeth i'r gwylwyr iau.

### 2 Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Ffair Aeaf

Eleni unwaith eto, estynnwyd ein gwasanaethau o'r Sioe Amaethyddol Frenhinol. Darlledwyd mwy o oriau nag erioed o'r blaen o raglen **Y Sioe** (Boomerang/ITV Cymru) ar y teledu, a oedd yn cynnwys cyfleuster y botwm coch, a gwasanaeth ar y we. Roedd y ffigurau gwylio lawer yn uwch na'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn ystod y prynhawn a gyda'r hwyr. Gwelwyd 341,000 o bobl yng Nghymru yn manteisio ar rywfaint o wasanaeth S4C o'r Sioe.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, darlledwyd gwasanaeth aml lwyfan cynhwysfawr **Y Ffair Aeaf** (Boomerang/ITV Cymru) o'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd.

# The Programme Service

2007 was a year of innovation and landmark programming on S4C, with the Rugby World Cup and the development of on-line services and viewing on broadband being particular highlights. In addition, several S4C programmes suceeded during the year in being nominated for awards and also winning awards in Wales, the UK and Europe.

Content was made available across a range of platforms—on television, through live web streaming and via a 35-day "window to view". More programme-related websites were developed, enhancing S4C's offering to audiences. In order to ensure best value S4C offers viewers another chance to see certain peak hours programming from various genres.

## Events

Live coverage of major sporting and cultural events were once again a key aspect of S4C's programme output in 2007.

### 1 Rugby World Cup 2007

**Cwpan Rygbi'r Byd** was the cornerstone of S4C's broadcasting year. Over 70 hours of the competition were broadcast, including 25 hours of live games plus highlights programmes. Coverage of the tournament was provided by Sunset+Vine Cymru following a competitive tender.

Associated programming included **Gwesty Cymru** (SMS), with exclusive behind-the-scenes access to the Welsh camp. A special edition looked at the fallout of Wales' unexpected early departure from the tournament. **Monde Gary a Beti** (Sunset+Vine Cymru) gave supporters their say, although the programme was not entirely successful. **Jonathan** (Avanti for BBC Cymru) and his team took a light-hearted look at the tournament while **Rygbi 100%** (Cwmni Da) gave younger viewers a taste of the competition.

### 2 The Royal Welsh Agricultural Show & the Winter Fair

This year again we extended our services from the Royal Welsh Show. More hours than ever of **Y Sioe** (Boomerang/ITV Cymru) were broadcast on television with red button facility and on the web. Viewing figures were substantially higher than the previous year during the afternoon and evening. 341,000 people in Wales tuned in to some part of S4C's service from the Show.

For the second year running, a comprehensive multi-platform service **Y Ffair Aeaf** (Boomerang/ITV Cymru) was broadcast from the Winter Fair in Llanelwedd.

# Y Gwasanaeth Rhaglenni

### 3 Eisteddfodau

Darlledwyd gwerth dros 110 awr o **Eisteddfod yr Urdd** (Hanner Hanner). Mabwysiadwyd patrwm darlledu tebyg i'r hyn a weithredwyd yn y gorffennol, gan gychwyn gyda rhaglen yn y bore, a dilyn hyn gyda darllediad parhaus ar S4C digidol a rhaglenni prynhawn ar y gwasanaeth analog. Roedd **Sedd yn y Pafiliwn** ar gael ar S4C2 trwy gydol y dydd tan 18.00.

Ymunodd y soprano Elin Manahan Thomas â'r tîm cyflwyno yn **Eisteddfod Gydwladol Llangollen** (Opus TF). Bu'r ymateb ar y wefan yn syfrdanol. Cafodd dros 2.5 miliwn o gyrchiadau o dros 80 o wledydd, gyda dros 250,000 o glipiau fideo yn cael eu gwylio.

Yn ystod **Eisteddfod Genedlaethol** (BBC Cymru) o'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Sir y Fflint a'r Cyffiniau, darlledwyd rhagor o raglenni o'r Babell Lên ar S4C2. Roedd darllediadau estynedig a chyngherddau byw yn nodwedd o'r darllediadau.

Ar draws holl ddigwyddiadau diwylliannol yr haf, gwelwyd 1.1 miliwn o bobl ar draws y DU yn manteisio ar raglenni S4C.

### 4 Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol

Rhoddwyd llawer o sylw i Etholiadau'r Cynulliad a gynhaliwyd ar 2 Ebrill yn **Etholiad 2007** (BBC Cymru). Darlledwyd tri rhifyn arbennig o **Pawb a'i Farn** (BBC Cymru) a rhifynnau pwrpasol o **Hacio** (ITV Cymru) a **Y Byd ar Bedwar** (ITV Cymru). Yn ogystal, cynhyrchwyd rhifyn arbennig o **Ffermio** (Telesgôp).

Mewn ymgais i apelio at gynulleidfa wahanol, estynnwyd gwahoddiad i wleidyddion ddewis eu hoff ganeuon mewn rhifyn arbennig o **Bandit o'r Senedd** (Boomerang).

### 5 Dathlu S4C yn 25 oed

Cynhyrchwyd nifer o raglenni arbennig ar gyfer pen-blwydd S4C yn 25 oed ym mis Tachwedd.

Bu dwy raglen ddogfen sylweddol sef **Teledu'r Cymry** (BBC Cymru), a gyflwynwyd gan Dewi Llwyd, yn ystyried cyd-destun gwleidyddol a hanesyddol y sianel o'i dechreuad tan heddiw.

Bu rhifyn o uchafbwyntiau arbennig **Cefn Gwlad** (ITV Cymru), yng nghwmni Dai Jones, yn gyfle i gyfarfod cymeriadau a chymunedau sydd bellach wedi newid am byth. Yn ogystal, darlledwyd rhifyn awr o hyd o **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Avanti) o gapel Tabernacl Treforys fel rhan o'r dathliadau. Cynhyrchwyd rhifynnau arbennig o'r sioe gerddoriaeth **Bandit** (Boomerang), y gyfres ffasiwn **Cwpwrdd Dillad** (Fflic) a'r rhaglen steil **04 Wal** (Fflic) hefyd.

### 6 Marwolaeth Ray Gravell

Cafwyd y newyddion trist ynghylch marwolaeth y cyn chwaraewr rygbi, y darlledwr a'r arwr cenedlaethol Ray Gravell ar 31 Hydref. Cynhyrchwyd darllediad byw o angladd Ray a gynhaliwyd ym Mharc y Strade gan BBC Cymru. Gwelwyd rhaglen ddogfen deimladwy, **Grav** (BBC Cymru) yn talu teyrnged bellach i'r Cymro balch a hynod o boblogaidd hwn. Ar y diwrnod yn dilyn ei farwolaeth, neilltuwyd rhaglen **Wedi 7** (Tinopolis) i'w gof ac roedd yn cynnwys cyfraniadau emosiynol ac arbennig gan ei ffrindiau.

# The Programme Service

### 3 Eisteddfodau

Over 110 hours were broadcast from **Eisteddfod yr Urdd** (Hanner Hanner). A broadcast pattern similar to that of previous years was adopted, starting with a morning programme and followed by continuous coverage on S4C digidol and afternoon programmes on the analogue service. **Sedd yn y Pafiliwn** was available on S4C2 throughout the day until 18.00.

The soprano Elin Manahan Thomas joined the presentation team at Llangollen for **Eisteddfod Gydwladol Llangollen** (Opus TF). The response to the website was exceptional. It received more than 2.5 million hits from more than 80 countries, with over 250,000 video clips having been viewed.

During the Flintshire and District National Eisteddfod **Eisteddfod Genedlaethol** (BBC Cymru) more programmes from the Literary Pavilion were broadcast on S4C2. Extended broadcasts and live concerts were a feature of the coverage.

Across all of the summer's cultural events 1.1 million people across the UK tuned in to S4C.

### 4 National Assembly Elections

There was extensive coverage of the Assembly Elections on 2 April in **Etholiad 2007** (BBC Cymru). There were three special editions of **Pawb a'i Farn** (BBC Cymru) plus bespoke editions of **Hacio** (ITV Cymru) and **Y Byd ar Bedwar** (ITV Cymru). A special edition of **Ffermio** (Telesgôp) was also produced.

In an attempt to appeal to a different audience politicians were invited to choose their favourite songs in a special edition of **Bandit o'r Senedd** (Boomerang).

### 5 S4C's 25th Anniversary Celebrations

S4C's 25th anniversary in November was accompanied by a number of special programmes.

Two substantial documentaries **Teledu'r Cymry**, (BBC Cymru), presented by Dewi Llwyd, looked at the political and historical context of the channel from its beginnings to the present day.

A special highlights edition of **Cefn Gwlad** (ITV Cymru), in the company of Dai Jones, met characters and communities which have by now changed forever. An hour-long edition of **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Avanti) from Morriston's Tabernacl chapel was also broadcast as part of the celebrations. Rock showcase **Bandit** (Boomerang), fashion series **Cwpwrdd Dillad** (Fflic) and style programme **04 Wal** (Fflic) also featured special editions.

### 6 Ray Gravell's Death

The sad news of the death of former rugby player, broadcaster and national hero, Ray Gravell, came on the 31st of October. Live coverage of Ray's funeral at Stradey Park was produced by BBC Cymru. A moving documentary, **Grav** (BBC Cymru), paid further tribute to this much-loved proud Welshman. On the day following his death, the **Wedi 7** (Tinopolis) programme was dedicated to his memory and contained special and emotional contributions from his friends.

# Y Gwasanaeth Rhaglenni

## Ffuglen

Rhoddwyd lle amlwg i ddramâu cyfoes a dramâu cyfnod yn amserlenni S4C yn ystod 2007. Roedd **Calon Gaeth** (Green Bay) yn ddrama ffilm a oedd yn adrodd stori drasig carwriaeth a waharddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Gwelwyd ail gyfres y ddrama drefol **Caerdydd** (Fiction Factory) yn dychwelyd ym mis Chwefror. Aeth **Y Pris** (Fiction Factory) ati i dorri tir newydd ym myd ffuglen Gymraeg, gan gymysgu trais a chomedi, wrth i'r hiwmor du adlewyrchu llais unigryw yr awdur, Tim Price.

Dychwelodd **Cowbois ac Injans** (Opus TF) am ei chyfres olaf. Enillodd y gyfres hynod hon sy'n bwrw golwg ar fywyd mewn busnes gwerthu ceir ail law, y wobr am y ddrama orau yn yr Ŵyl Gyfryngau Celtaidd.

Roedd **Hope** (Bloom St) yn ffilm uchelgeisiol, ryngwladol ac amlieithog gan Karl Francis.

Bu cymeriadau ifainc newydd yn allweddol yn natblygiad **Pobol y Cwm** (BBC Cymru). Cyflwynwyd sawl cymeriad newydd yng nghyfres **Tipyn o Stad** (Cwmni Da). Cynlluniwyd gwefan newydd ar gyfer cyfres 2007 **Rownd a Rownd** (Nant), a fu'n fodd i gynyddu brwdfrydedd a diddordeb y gwylwyr iau.

Adolygwyd comedi sefyllfa newydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru, **Man Del** (Cwmni Da), o ganlyniad i'r sensitifrwydd ynghylch portreadu cymeriad anabl. Nid oedd y portread yn cyd-fynd â pholisi portreadu S4C ac o ganlyniad, golygwyd rhai golygfeydd.

# The Programme Service

## Fiction

Contemporary and period drama featured strongly in S4C's schedules during 2007. Set during the First World War, single film drama **Calon Gaeth** (Green Bay), told the tragic story of a forbidden love affair.

The second series of the urban drama **Caerdydd** (Fiction Factory) returned in February. **Y Pris** (Fiction Factory) broke new ground in Welsh fiction, mixing violence with comedy, with the black humour reflecting the unique voice of the author, Tim Price.

**Cowbois ac Injans** (Opus TF) returned for its final series. This quirky take on life in a second hand car dealership won the best drama prize at the Celtic Media Festival.

**Hope** (Bloom St) was an ambitious, international, multilingual film by Karl Francis.

New young characters were pivotal in the development of **Pobol y Cwm** (BBC Cymru). The series of **Tipyn o Stad** (Cwmni Da) introduced several new characters. A new website was designed for the 2007 series of **Rownd a Rownd** (Nant) which built upon the enthusiasm and interest of the younger viewers.

A new situation comedy located in North Wales, **Man Del** (Cwmni Da), was reviewed due to the sensitivity surrounding the portrayal of a disabled character. The portrayal was not consistent with S4C's policy on portrayal and as a result some scenes were edited.

# Y Gwasanaeth Rhaglenni

## Chwaraeon

Fel rhan o'n partneriaeth gyda'r BBC, rhoddwyd sylw sylweddol i rygbi'r undeb, yn ogystal â Chwpan Rygbi'r Byd.

Darlledwyd rhaglenni byw o Bencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad yn **Y Clwb Rygbi Rhyngwladol,** a oedd yn atgyfnerthu'r darllediadau byw ecsgliwsif o gemau Cynghrair Magners yn **Y Clwb Rygbi**. Darlledwyd gemau byw eraill yng **Nghynghrair y Principality** a **Chwpan Konica Minolta.**

Darlledwyd uchafbwyntiau helaeth o gystadleuaeth rygbi prif glybiau Ewrop yn **Cwpan Heineken** (Nant). Gwelwyd y gorau o'r byd rygbi yn Ffrainc yn **Le Rygbi** (Tinopolis), ynghyd â darllediadau pellach yn **7 Bob Ochr** a **Rygbi'r Byd** (SMS). Er mwyn ymestyn ein darpariaeth rygbi ar nosweithiau Sadwrn yn ystod yr haf, bu S4C yn dilyn tîm Rygbi'r Gynghrair, y Celtic Crusaders, yn **Y Clwb Rygbi XIII** (Nant).

Rhoddwyd cryn sylw i bêl-droed rhyngwladol a chartref hefyd. Darlledwyd gêm Cyprus v Cymru (Ffilmiau'r Nant) yn fyw, a gwelwyd ein hymrwymiad i bêl-droed cartref yng Nghymru yn parhau yn **Y Clwb Pêl-droed** (BBC Cymru). Lansiwyd **Sgorio** (Nant) o'r newydd gan roi pwyslais ar ddangos y goliau gorau o'r byd pêl-droed ar draws y byd.

Bu **Cwpan Caerdydd** (Green Bay), rhaglen ddogfen wedi'i dramateiddio, yn cofio Rownd Derfynol Cwpan FA 1927 pan welwyd Caerdydd yn trechu Arsenal.

Er mwyn ymestyn brand **Rasus** (Teledu Apollo) a thyfu rhaglen Ar Garlam, bu **Rasus ar Garlam** (Boomerang) yn dangos uchafbwyntiau o'r rasus pwynt-i-bwynt gorau yng Nghymru.

Dangoswyd uchafbwynt y tymor trotian yn ystod darllediad byw **Rasus Tregaron** (Teledu Apollo).

Cynhyrchwyd 50fed rhaglen **Ralio** (P.O.P.1) ym mis Rhagfyr. Dangoswyd bwletinau nosweithiol o rownd derfynol Pencampwriaeth y Byd yn **Rali Cymru.**

Unwaith eto, darlledwyd **Ras yr Wyddfa** a **Marathon Eryri** (ill dau gan Cwmni Da).

Cynhaliwyd ail Ddarlith Chwaraeon Flynyddol S4C ym mis Tachwedd. Bu dros 200 o westeion yn gwrando ar yr athletwr Michael Johnson, a enillodd bum medal aur Olympaidd, yn trafod y cymhelliant sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y brig ym myd chwaraeon. Mae'r ddarlith yn datblygu i fod yn ddigwyddiad blynyddol poblogaidd, gan fod yn sail i ymrwymiad S4C tuag at chwaraeon.

## Sport

As part of our partnership with the BBC, there was extensive rugby union coverage in addition to the Rugby World Cup.

Live action from the Six Nations Rugby Championship in **Y Clwb Rygbi Rhyngwladol** was complemented by exclusive live coverage of games from the Magners League in **Y Clwb Rygbi**. Other live games were shown in **Cynghrair y Principality** and **Cwpan Konica Minolta.**

Extensive highlights of Europe's premier club rugby competition were shown in **Cwpan Heineken** (Nant). The best of French rugby featured in **Le Rygbi** (Tinopolis) and there was further coverage in **7 Bob Ochr** and **Rygbi'r Byd** (SMS). In order to extend our Saturday evening rugby provision during the summer, S4C followed the Rugby League side, the Celtic Crusaders in **Y Clwb Rygbi XIII** (Nant).

International and domestic football was also to the fore. There was live and exclusive coverage of Cyprus v Wales (Fflimiau'r Nant) and we continued our commitment to Welsh domestic football in **Y Clwb Pêl-droed** (BBC Cymru). **Sgorio** (Nant) was re-launched with the emphasis on showing world football's best goals.

A dramatised documentary **Cwpan Caerdydd** (Green Bay) recalled the 1927 FA Cup Final when Cardiff City beat Arsenal.

In order to extend the **Rasus** (Teledu Apollo) brand and to grow the Ar Garlam programme, **Rasus ar Garlam** (Boomerang) showed highlights of the best point-to-point races in Wales.

The highlight of the trotting season was shown during the live coverage of **Rasus Tregaron** (Teledu Apollo).

**Ralio** (P.O.P.1) marked its 50th programme in December. Nightly bulletins of the final round of the World Championship were shown in **Rali Cymru.**

**Ras yr Wyddfa** and **Marathon Eryri** (both by Cwmni Da) were again covered.

The second S4C Annual Sports Lecture was held in November. More than 200 guests heard the athlete Michael Johnson, five-times Olympic gold-medallist, discuss the motivation needed to be a sporting winner. The lecture is becoming a popular annual event, underpinning S4C's commitment to sport.

# Y Gwasanaeth Rhaglenni

## Diwylliant a Cherddoriaeth

Roedd **Codi Canu** (Al Fresco) yn gyfres gerddoriaeth newydd wedi'i seilio ar thema rygbi. Sefydlwyd pedwar côr cymysg o blith cefnogwyr timau rygbi y Gweilch, Gleision Caerdydd, Dreigiau Gwent a'r Sgarlets. Yna, gwelwyd y corau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a'r côr buddugol yn cael y cyfle i ganu'r anthem genedlaethol yn Stadiwm y Mileniwm cyn y gêm ryngwladol rhwng Cymru a Ffrainc. Y côr buddugol oedd Côr Dreigiau Gwent a Chasnewydd. Un o gryfderau'r gyfres oedd ei bod wedi llwyddo i ddenu nifer o bobl di-Gymraeg i gyflawni rôl hanfodol yn un o raglenni S4C.

Gan barhau gyda thema canu corawl, gwelwyd Côr Cywair yn cyrraedd y brig yng nghystadleuaeth **Côr Cymru 2007** (Opus TF) gan ennill y wobr a sicrhau canmoliaeth uchel gan y panel o feirniaid rhyngwladol. Ychwanegwyd categori newydd ar gyfer corau plant dan 16 oed.

Darlledwyd cystadleuaeth gerddorol reolaidd arall, **Cân i Gymru** (Avanti), o neuadd Afan Lido. Yr enillwyr oedd Einir Dafydd a'r bardd Ceri Wyn Jones gyda'u cân "Blwyddyn Mas". Yn ystod yr un penwythnos, cynhaliwyd cystadleuaeth arall **Emyn i Gymru**, i ddewis hoff emyn Cymru, fel rhan o gyfres **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Avanti). Yr emyn buddugol oedd Pantyfedwen.

Roedd dwy raglen dair awr o hyd o **Gŵyl Jazz HSBC Aberhonddu** (Indus) yn cynnwys dwy raglen o uchafbwyntiau ac un cyngerdd yng nghwmni Catrin Finch.

Llwyddwyd i ddenu 171,000 o wylwyr ar draws y DU i wylio rhaglen gala operatig **Gŵyl y Faenol** (BBC Cymru).

Roedd **Gŵyl Cerdd Dant** (Avanti) yn rhoi sylw helaeth i'r gystadleuaeth a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid. Yn ogystal, darlledwyd rhifyn arbennig o **Talwrn y Beirdd**.

Roedd yr uchafbwyntiau cerddorol dros y Nadolig yn cynnwys **Cyngerdd Dennis O'Neill a Kiri Te Kanawa** (Opus TF) recordiad o berfformiad yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, a **Carolau o Langollen** (Opus TF) a ddenodd gyrhaeddiad o 106,000 o wylwyr ar draws y DU.

Roedd **Ysgoloriaeth Bryn Terfel** (Al Fresco), **Sioe Gelf** (Cwmni Da) a'r sioe gerddoriaeth gwlt **Bandit** (Boomerang) ymhlith y rhaglenni eraill, gan adlewyrchu amrywiaeth allbwn diwylliannol S4C.

Mae partneriaeth S4C gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn mynd y tu hwnt i gytundeb darlledu ac mae'n cynnwys cymorth ymarferol a nawdd. Yn ogystal, rhoddwyd cymorth i Eisteddfod Gydwladol Llangollen, Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Ffresh, yr ŵyl ffilm i fyfyrwyr.

## Culture & Music

**Codi Canu** (Al Fresco) was a new rugby-themed music series. Four mixed voice choirs were formed from the supporters of the Ospreys, Cardiff Blues, Gwent Dragons and Scarlets rugby teams. The choirs then competed against each other with the winning choir being given the opportunity to sing the national anthem in the Millennium Stadium before the international game between Wales and France. The Newport Gwent Dragons were victorious. One of the strengths of the series was that it succeeded in attracting many non-Welsh speakers to play an integral part in an S4C programme.

Maintaining the choral theme, **Côr Cymru 2007** (Opus TF) saw Côr Cywair take the prize and gaining high commendations from the panel of international adjudicators. A new category for choirs of children under 16 was added.

Another regular musical competition, **Cân i Gymru** (Avanti), was broadcast from the Afan Lido. The winners were Einir Dafydd and the poet Ceri Wyn Jones with their song "Blwyddyn Mas". On the same weekend another competition to choose Wales' favourite hymn, **Emyn i Gymru**, was held as part of the **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Avanti) series. The winning hymn was Pantyfedwen.

Three hour-long programmes from **Gŵyl Jazz HSBC Aberhonddu** (Indus) included two highlights programmes and one concert with Catrin Finch.

Operatic gala **Gŵyl y Faenol** (BBC Cymru) reached 171,000 viewers across the UK.

There was extensive coverage of **Gŵyl Cerdd Dant** (Avanti) from Pontrhydfendigaid. A special edition of **Talwrn y Beirdd** (Avanti) was also broadcast.

Musical highlights over Christmas included **Cyngerdd Dennis O'Neill a Kiri Te Kanawa** (Opus TF) a recording of a performance at the Wales Millennium Centre, and **Carolau o Langollen** (Opus TF) which attracted a reach of 106,000 viewers across the UK.

**Ysgoloriaeth Bryn Terfel** (Al Fresco), **Sioe Gelf** (Cwmni Da) and cult music show **Bandit** (Boomerang) were among the other offerings reflecting the diversity of S4C's cultural output.

S4C's partnership with the Urdd National Eisteddfod goes beyond a broadcasting contract and includes help in kind and sponsorship. Support was also given to the Llangollen International Eisteddfod, the National Eisteddfod of Wales and the Ffresh student film festival.

# Y Gwasanaeth Rhaglenni

## Ffeithiol

Bu'r gyfres hanesyddol **Tywysogion** (Bont) yn adrodd hanes Tywysogion Cymru yn ystod yr oesoedd canol. Roedd ymchwil yn awgrymu y byddai'n well gan rai cynulleidfaoedd gael naws ysgafnach i'r rhaglenni, ond gwelwyd gwerthfawrogiad i'r gyfres sylweddol hon. Bu'r cyflwynydd Dr Richard Wyn Jones yn cyflwyno **Datganoli** (Bont) hefyd, a oedd yn dadansoddi datblygiad gwleidyddol Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf.

Gwelwyd ffotograffiaeth ysblennydd a chryn ddewrder yn rhaglen **Iolo yn Hedfan** (Indus) wrth i'r naturiaethwr Iolo Williams ddysgu sut i hedfan gyda'r adar.

Adroddwyd am ystod o bynciau a straeon dynol yn rhaglenni dogfen **O Flaen Dy Lygaid** (BBC Cymru), **O'r Galon** (cwmnïau amrywiol), **Wynebau Newydd** (cwmnïau amrywiol) a **Cefn Gwlad** (ITV Cymru).

Yn ogystal â **Ffermio** (Telesgôp), a'i bwletinau rheolaidd cynhyrchwyd rhaglenni arbennig o sioeau amaethyddol llai Cymru hefyd.

Roedd **Fel Arall** (Green Bay) yn adrodd hanes profiadau pobl hoyw yng Nghymru. Darlledwyd y rhaglen yn gyntaf fel rhan o Ŵyl Ffilmiau Hoyw Iris yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Dros y Nadolig, darlledwyd rhaglen ddogfen **Bois Parc Nest** (Teledu Apollo), a oedd yn adrodd hanes y brodyr llenyddol adnabyddus.

Gwelwyd y rhaglen gylchgrawn boblogaidd gyda'r hwyr **Wedi 7** (Tinopolis) yn cael cwmni ei rhaglen gyfatebol yn ystod y dydd, **Wedi 3** (Tinopolis) ar S4C analog (a ddarlledwyd yn gyd-amserol ar ddigidol) am gyfnod dros dro er mwyn rhoi blas i'r gynulleidfa o'r ddarpariaeth ddigidol. Bu'r symudiad yn un llwyddiannus ac erbyn hyn darlledir **Wedi 3** ar y gwasanaeth analog a digidol, gan ddisodli'r ddarpariaeth Saesneg ar y gwasanaeth analog yn ystod y cyfnod hwnnw.

## Newyddion a Materion Cyfoes

Gwelwyd newyddion yn parhau i fod wrth wraidd yr amserlen, gan gyd-fynd â rôl S4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Darlledwyd y prif raglen **Newyddion** a bwletinau (BBC Cymru) yn ystod yr oriau brig, gan gynnig cymysgedd o newyddion o Gymru a'r DU a newyddion rhyngwladol.

Bu cyfres wleidyddol newydd **CF99** yn ystyried y digwyddiadau ym Mae Caerdydd a gwelwyd **Pawb a'i Farn**, **Taro 9**, **Yr Wythnos** (i gyd gan BBC Cymru), **Y Byd ar Bedwar** a **Hacio** (ill dau gan ITV Cymru) yn cynnal darpariaeth amrywiol o allbwn materion cyfoes.

Yn dilyn proses dendro, allanolwyd gwasanaeth tywydd S4C i ITV Cymru. Gyda graffeg newydd i gyd-fynd â brandio newydd S4C, darlledwyd rhagor o fwletinau o leoliadau y tu allan i'r stiwdio, gan roi gogwydd newyddiadurol ychwanegol i'r gwasanaeth.

Darlledwyd trafodion y Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2. Cynigiwyd darllediadau o'r cyfarfodydd llawn, yn ogystal â darllediadau o gyfarfodydd pwyllgor.Cynhyrchwyd y rhaglenni gan BBC Cymru.

# The Programme Service

## Factual

Historical series **Tywysogion** (Bont) told the story of the Welsh Princes during the middle ages. Research suggested that some audiences would have preferred a lighter tone, but there was also appreciation of this substantial series. Presenter Dr Richard Wyn Jones also presented **Datganoli** (Bont) which analysed the political development of Wales over the past 10 years.

Stunning photography and considerable courage was seen in **Iolo yn Hedfan** (Indus) as naturalist Iolo Williams learned to take flight with the birds.

A wide range of topics and human stories were told in the documentary strands **O Flaen Dy Lygaid** (BBC Cymru), **O'r Galon** (various companies), **Wynebau Newydd** (various companies) and **Cefn Gwlad** (ITV Cymru).

In addition to **Ffermio** (Telesgôp), and its regular bulletins special programmes from Wales' smaller agricultural shows were also produced.

**Fel Arall** (Green Bay) was an account of the experiences of gay people in Wales. The programme was first shown as part of the Iris Gay Film Festival in Cardiff in October.

During the Christmas period a documentary **Bois Parc Nest** (Teledu Apollo), profiling three well known literary brothers, was shown.

The popular **Wedi 7** (Tinopolis) evening topical magazine was joined by its daytime sibling **Wedi 3** (Tinopolis) shown on S4C analogue (simulcast on digital) for a trial period to give the audience a taste of the digital provision. The move was successful and **Wedi 3** is now broadcast on both analogue and digital, displacing English language provision on the analogue service.

## News & Current Affairs

News remained at the heart of the schedule in keeping with S4C's role as a public service broadcaster. The main **Newyddion** programme and bulletins (BBC Cymru) were broadcast during peak hours providing a mix of Welsh, UK and international news.

A new political series **CF99** looked at events in Cardiff Bay while **Pawb a'i Farn**, **Taro 9**, **Yr Wythnos** (all BBC Cymru), **Y Byd ar Bedwar** and **Hacio** (both ITV Wales) maintained a diverse provision of current affairs output.

Following a tender process, S4C's Weather service was outsourced to ITV Cymru. With new graphics to complement S4C's new branding, there were more bulletins from locations outside the studio, giving the service an added journalistic slant.

The proceedings of the National Assembly were broadcast on S4C2. Produced by BBC Cymru, there was coverage of the plenary sessions as well as coverage of committee meetings.

# Y Gwasanaeth Rhaglenni

## Adloniant ac Adloniant Ffeithiol

Ar ôl bod yn Ffrainc gyda'i gogyddion dan hyfforddiant yn 2006, yr Eidal oedd lleoliad **Casa Dudley** (Opus TF) yn 2007. Croesawyd y gyfres goginio liwgar gan y gwylwyr.

Bu Dewi "Pws" Morris yn cyflwyno **Pws** (Presentable), cyfres newydd sbon lle y gwelwyd y cyflwynydd siaradus yn cymdeithasu â phobl mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Gan ddatblygu'r sioe sgwrsio draddodiadol, bu **Cadair Fawr Eleri Siôn** (Al Fresco), yng nghwmni'r gyflwynwraig reolaidd Eleri Siôn, yn trawsnewid pobl gyffredin neilltuol yn sêr. Un o'r rhaglenni mwyaf poblogaidd yn ystod y flwyddyn fu **Glyn ac Imogen** (Fflic) a fu'n dilyn hynt a helynt y ddau unigolyn a fu'n cymryd rhan yn rhaglen **Big Brother.** Llwyddodd y rhaglen i ddenu 171,000 o wylwyr ar draws y DU. Bu Glyn Wise yn un o sêr **Y Briodas Fawr** (Teledu Solo) hefyd.

Rhaglen arall a anelwyd at gynulleidfaoedd iau, yn ogystal â chefnogwyr rygbi brwd, oedd **Gwragedd Rygbi** (Fflic), gydag un rhaglen ym mis Mawrth yn llwyddo i ddenu 112,000 o wylwyr ar draws y DU.

Gwelwyd cyfres newydd o **Cnex** (Cwmni Da) a **Mawr** (Al Fresco) a bu'r cymeriad poblogaidd **PC Leslie Wynne** (Boomerang) yn destun ei sioe ei hun. Dros y Nadolig, bu gwylwyr yn dilyn hynt a helynt Dai Jones wrth iddo geisio goresgyn ei ofn o ddŵr trwy ddysgu nofio yn **Dai'n y Dŵr** (Boomerang).

Gwelwyd y ffefrynnau rheolaidd **Cwpwrdd Dillad**, **04Wal** a **Tŷ Cymreig** yn dychwelyd (i gyd gan Fflic).

## Plant

Fel yr ail fuddsoddwr mwyaf yn y ddarpariaeth i blant yn y DU, gwelwyd S4C yn parhau i wasanaethu'r gynulleidfa ifanc gan ddarparu ystod eang o gynnwys ar eu cyfer.

I blant dan oed ysgol, bu **Holi Hana** (Calon) yn ychwanegiad a groesawyd i restr hirfaith o ffefrynnau animeiddio S4C. Roedd y cynnyrch yn ffrwyth cynhyrchiad ar y cyd rhwng S4C, Calon, Five ac RDF (gyda chefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Datblygwyd y ddarpariaeth i blant 10 i 15 oed. Fel rhan o'r Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC, lansiwyd **Mosgito**, cyfres adloniant newydd ddiddorol. Estynnwyd tymor **Ffeil** hefyd. Er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth i blant hŷn darlledwyd sioe gwis newydd sbon o'r enw **Pencampau** (SMS). Roedd rhaglen newydd arall, **Dawnstastig** (Teledu Apollo), yn cynnig cyfle i blant o bob oedran gystadlu ym maes dawns.

O'i stiwdio yng Nghaernarfon, gwelwyd **Uned 5** (Antena) yn parhau i fod yn gonglfaen ein hamserlen min nos ar nos Wener. Ymhlith y rhaglenni eraill a welwyd yn dychwelyd oedd **Atom** (Cwmni Da), **Mama Mia** (Fflic), **Y Fet a Fi** (P.O.P.1), **Popty** (Avanti) a **Stamina** (Avanti).

Adroddodd y ffilm animeiddiedig **Gelert** (Griffilms) y stori draddodiadol ar gyfer cynulleidfa deuluol adeg y Nadolig—gyda thro twymgalon ar y diwedd.

Ar ôl allanoli dolenni cyflwyno **Planed Plant** a **Planed Plant Bach** i Boomerang, cyflwynwyd elfen ryngweithiol gref yn ein darpariaeth i blant.

## Entertainment & Factual Entertainment

After being in France with his apprentice chefs in 2006, Italy was the location for **Casa Dudley** (Opus TF) in 2007. The colourful culinary series was well received by the viewers.

Dewi "Pws" Morris was the host of **Pws** (Presentable), a brand new series in which the garrulous presenter socialised with people from communities across Wales.

In a development of the traditional talk show, **Cadair Fawr Eleri Sion** (Al Fresco) made stars of extraordinary, ordinary people in the company of the regular host Eleri Siôn. One of the most popular programmes of the year was **Glyn ac Imogen** (Fflic) which followed the fortunes of the two former **Big Brother** housemates. The programme attracted 171,000 viewers from across the UK. Glyn Wise was also one of stars of **Y Briodas Fawr** (Teledu Solo).

Another programme produced with younger audiences as well as the rugby die-hards in mind was **Gwragedd Rygbi** (Fflic), with one programme in March managing to reach 112,000 viewers across the UK.

There were new series of **Cnex** (Cwmni Da) and **Mawr** (Al Fresco) and the popular **PC Leslie Wynne** (Boomerang) starred in his own show. Over the Christmas period, viewers followed the fortunes of Dai Jones as he tried to overcome his fear of water and learn to swim in **Dai'n y Dŵr** (Boomerang).

Regular favourites **Cwpwrdd Dillad**, **04Wal** and **Tŷ Cymreig** returned (all Fflic).

## Children

As the second largest investor in children's provision in the UK, S4C continued to serve the young audience with a wide range of content.

For pre-school children, **Holi Hana** (Calon) was a welcome addition to S4C's long line of animated favourites. The product was a co-production between S4C, Calon, Five and RDF (with backing from the European Union and the Welsh Assembly Government).

The provision for 10 to 15 year-olds was enhanced. As part of the Strategic Partnership with the BBC, **Mosgito**, an informative and entertaining new series was launched. **Ffeil's** term was also extended. To strengthen the provision for older children, a brand new quiz show, **Pencampau** (SMS), was aired. Another new programme, **Dawnstastig** (Teledu Apollo), offered a chance for children of all ages to compete in the field of dance.

From its studio in Caernarfon, **Uned 5** (Antena) continued to be a cornerstone of our Friday evening schedule. Among other returning programmes were **Atom** (Cwmni Da), **Mama Mia** (Fflic), **Y Fet a Fi** (P.O.P.1), **Popty** (Avanti) and **Stamina** (Avanti).

The animated film **Gelert** (Griffilms) told the traditional tale for Christmas family audiences—with a heart-warming twist at the end.

The outsourcing of the **Planed Plant** and **Planed Plant Bach** presentation links to Boomerang saw the introduction of a strong interactive element in our children's provision.

## Apêl S4C

Yn 2007, penderfynwyd adfywio'r apêl flynyddol a symud i ffwrdd o weithgarwch codi arian uniongyrchol.

Bu apêl 2007, Hybu Rygbi, yn canolbwyntio ar helpu achosion sy'n agos at galonnau cymunedau rygbi yng Nghymru. Cynigiwyd cyfleoedd i glybiau, cymdeithasau, unigolion ac elusennau sy'n gysylltiedig â rygbi i godi proffil eu gweithgareddau, a help i gynnal digwyddiadau a chodi arian drostynt eu hunain.

Yn dilyn y newidiadau i'r Apêl, penderfynodd ymddiriedolwyr Apêl S4C derfynu statws elusen gofrestredig yr Apêl ym mis Tachwedd.

## S4C Appeal

In 2007, a decision was made to refresh the annual appeal and move away from direct fundraising.

The 2007 appeal, Hybu Rygbi, concentrated on helping causes that were close to the hearts of rugby communities in Wales. Opportunities were offered to clubs, societies, individuals and charities associated with rugby to raise the profile of their activities, and to help them hold events and raise money themselves.

Following the changes to the Appeal, the trustees of the S4C Appeal decided to end the Appeal's registered charity status in November.

# Gwasanaethau Ychwanegol

## Gwasanaethau Mynediad

Mae gwasanaethau ychwanegol amrywiol ar gael i gyd-fynd â rhaglenni S4C, ac maent yn fodd o ymestyn a chynyddu apêl y rhaglenni i gynulleidfa ehangach. Addaswyd y gwasanaethau hyn ar gyfer pobl ddall, pobl fyddar a phobl trwm eu clyw, y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys isdeitlau, traciau sain, disgrifiadau sain, rhaglenni sy'n cynnwys iaith arwyddion, gwasanaethau ar ein gwefan a'r gwasanaeth testun ar y sgrîn Sbectel. Yn 2007, darparwyd isdeitlau Cymraeg a Saesneg a rhaglenni sy'n cynnwys iaith arwyddion ar wasanaeth band llydan S4C.

## Isdeitlau

Mae gwasanaeth isdeitlo Saesneg ar gael i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, cartrefi ieithoedd cymysg, a'r byddar a'r rhai trwm eu clyw. Gellir manteisio ar y gwasanaeth hwn trwy droi at dudalen 888 Teletext ar y gwasanaeth analog, ac maent ar gael yn hawdd ar y llwyfannau digidol hefyd. Yn ogystal, mae S4C wedi sicrhau bod isdeitlau yn y ddwy iaith ar gael ar lwyfan Sky trwy gyfrwng gwasanaeth y botwm coch, sy'n wasanaeth lle y cynigir dim ond un ffrwd isdeitlo fel arfer.

Yn ystod 2007, isdeitlwyd gwerth 76.3% o'r gwasanaeth digidol, o'i gymharu â tharged o 71% ar gyfer y flwyddyn. Ar y gwasanaeth analog, darparwyd gwerth 1,675 awr o isdeitlau Cymraeg, gan gyfateb â chanran o 81.1% yn erbyn targed o 80%. Roedd hyn yn cymharu â 1,512 awr yn 2006.

Darlledwyd nifer o raglenni poblogaidd gydag isdeitlau agored (hynny yw, isdeitlau a welir gan yr holl wylwyr) pan gawsant eu hailddarlledu, gan gynnwys dramâu poblogaidd ac amrywiaeth o raglenni eraill.

Mae isdeitlau Cymraeg yn addas ar gyfer dysgwyr, y rhai nad ydynt yn sicr o'u Cymraeg a siaradwyr Cymraeg byddar a thrwm eu clyw. At ei gilydd, darparwyd isdeitlau Cymraeg ar gyfer gwerth 520 awr o raglenni gwreiddiol yn 2007 gan gyflawni targed Awdurdod S4C o 10 awr yr wythnos.

Roedd isdeitlau i'r byddar a'r rhai trwm eu clyw a ddarparwyd gan Channel 4 ar gael ar y rhaglenni hynny pan gawsant eu darlledu ar S4C.

## Iaith Arwyddion

Ar S4C digidol, darlledwyd ystod eang o raglenni a oedd yn cynnwys BSL (Iaith Arwyddion Prydain) yn rheolaidd ar brynhawniau Sadwrn. Darparwyd iaith arwyddion ar gyfer 2.03% o'r rhaglenni a ddarlledwyd yn 2007, o'i gymharu â tharged Ofcom o 2%.

## Disgrifiadau Sain

Mae'r gwasanaeth disgrifiadau sain yn cynorthwyo pobl ddall a phobl sydd â nam ar eu golwg trwy ddarparu trac sain ychwanegol sy'n cael ei gymysgu gyda'r un gwreiddiol, gan roi disgrifiadau o sefyllfa neu o'r gweithredu yn y rhaglen pan fo hynny'n briodol.

Roedd y gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer ystod o raglenni ar S4C digidol gyda disgrifiadau sain yn cael eu darparu ar gyfer gwerth 8.3% o'r oriau, o'i gymharu â tharged Ofcom o 8%.

## Arloesedd

Defnyddiwyd gwasanaeth botwm coch S4C er mwyn darparu profiad ehangach a gwell i'r gwyliwr, ar gyfer digwyddiadau megis Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Ffair Aeaf Frenhinol Cymru yn bennaf, lle y darparwyd ffrydiau fideo ychwanegol o'r digwyddiadau yr oedd modd eu gwylio. Mae bwletinau a rhaglen reolaidd **Ffermio** (Telesgôp) wedi cynnwys gwasanaethau ychwanegol sy'n addas i'w chynulleidfa graidd.

Yn ogystal, darparwyd y gwasanaeth teletestun, Sbectel, ar Freeview ac ar lwyfan Sky hefyd, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr am raglenni a gwasanaethau.

## Dysgwyr

Mae gwefan S4C s4c.co.uk/dysgwyr yn darparu adnoddau ar gyfer dysgwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan alluogi'r gwylwyr hyn i fwynhau'r gwasanaeth rhaglenni. Gall defnyddwyr asesu eu lefelau unigol o ran sgiliau ac yna gallant droi at ddeunydd cymorth addas. Mae'r deunydd sydd ar gael yn cynnwys gwybodaeth am gefndir rhaglenni ac erthyglau amdanynt, cyfweliadau gydag enwogion a gweithgareddau ieithyddol amrywiol. Yn ogystal, ceir gweithgareddau sain a fideo sy'n cynnwys testun (sgript) wedi'i gysylltu â chlipiau fideo sy'n briodol i lefel sgiliau Cymraeg y defnyddiwr. Ers i ddulliau safonol o gasglu data gael eu cyflwyno ym mis Gorffennaf 2007, amcangyfrifir bod 6,175 o ddefnyddwyr wedi troi at y wefan i ddysgwyr bob wythnos ar gyfartaledd.

# Additional Services

## Access Services

Various additional services are available to supplement the S4C programme service, and serve to extend and enhance the appeal of the programmes to a wider audience. These services are tailored for blind, deaf and hard of hearing people, non-Welsh speakers, and Welsh learners. The services comprise subtitles, audio description soundtracks, signed programmes, website services and the on-screen text service Sbectel. In 2007 Welsh and English subtitles and signed programmes were made available on S4C's broadband service.

## Subtitles

English-language subtitles are available to non-Welsh speakers, homes with mixed-language viewers, and deaf and hard of hearing people. They are accessible on Teletext 888 on the analogue service, and also easily available on the digital platforms. S4C has also ensured that subtitles in both languages are available on the Sky platform through the red button service where normally only one subtitling stream is available.

In 2007, 76.3% of the digital service carried subtitles against a target of 71% for the year. On the analogue service 1,675 Welsh language hours were subtitled, delivering 81.1% against a target of 80%.This compared to 1,512 hours in 2006.

Many popular programmes were broadcast with open subtitles (subtitles seen by all viewers) on second transmission and included popular dramas and a variety of other genres.

Welsh language subtitles are suitable for Welsh learners, those uncertain of their Welsh, and deaf and hard of hearing Welsh speakers. 520 hours of original programmes carried Welsh subtitles in 2007 reaching the S4C Authority target of 10 hours per week.

Subtitles for the deaf and hard of hearing provided by Channel 4 were made available on those programmes when transmitted on S4C.

## Signing

A wide range of programmes signed in BSL (British Sign Language) were regularly broadcast on Saturday afternoons on S4C digidol. 2.03% of all programmes were signed in 2007 against the Ofcom target of 2%.

## Audio Description

The audio description service assists the blind and visually impaired by providing an additional soundtrack which is mixed with the original, providing scene and action descriptions when appropriate within the programme.

This service was available on S4C digidol for a range of programmes with 8.3% of the hours audio described against the Ofcom target of 8%.

## Innovation

The S4C red button service was used to provide a broader and enhanced experience for the viewer mainly for events such as the Urdd National Eisteddfod, Royal Welsh Show, the National Eisteddfod of Wales and the Royal Welsh Winter Fair where additional video streams from the events were made available to view. The regular farming programme and bulletins **Ffermio** (Telesgôp) have included additional services suitable for its core audience.

The teletext service, Sbectel, was also made available on Freeview in addition to the Sky platform, providing valuable programme and service information.

## Learners

The S4C website s4c.co.uk/learners provides resources for Welsh learners both in English and Welsh, allowing these viewers to enjoy the programme service. Users can assess their individual skill levels and then link to suitable support material. Available material includes background information and articles on programmes, celebrity interviews and various language activities. There are also audio and video activities which include text (script) linked to video clips which are appropriate to the Welsh language level of the user. Since standard methods of collecting data were introduced in July 2007, it is estimated that 6,175 users per week on average visited the learners' site.

# Cyfathrebu

Roedd cyfathrebu effeithiol â chynulleidfaoedd yn un o'r amcanion allweddol yn 2007 wrth i S4C baratoi ar gyfer y newid i ddigidol a sialensiau cystadleuol yr amgylchedd aml-sianel.

Gwelwyd cyhoeddiadau newyddion, gweithgarwch hyrwyddo rhaglenni, ymgyrchoedd marchnata a digwyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd yn cyfrannu at strategaeth gyfathrebu S4C i gyfleu darpariaeth cynnwys o ansawdd y sianel ar draws ystod o lwyfannau. Datblygwyd gwefan S4C fel offeryn cyfathrebu craidd. Defnyddiwyd gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i hyrwyddo cynnwys S4C ymhlith cynulleidfaoedd ifanc. Gwelwyd gwasanaeth cyfryngau cynhwysfawr gan gynnwys eitemau, amserlenni a gwybodaeth am rhaglenni a llywiau rhaglenni electronig yn sicrhau cyhoeddusrwydd ar gyfer y sianel.

Roedd lansio brand newydd S4C yn weithgarwch allweddol a dyma'r tro cyntaf i'r sianel gael ei hailfrandio mewn 13 o flynyddoedd. Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer y diwydiant yng Nghaerdydd ac yn Llundain, canmolwyd y ddelwedd gyfoes newydd gan wylwyr ac enillodd nifer o wobrau blaenllaw y diwydiant. Ailddyluniwyd Sgrîn, cylchgrawn chwarterol S4C, er mwyn cyd-fynd â'r brand, ac fe'i dosbarthwyd yn rhad ac am ddim i 37,850 o danysgrifwyr.

Roedd gan S4C bresenoldeb sylweddol mewn digwyddiadau diwylliannol mawr gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru, gan gynnig cyfleoedd pellach i gysylltu â chynulleidfaoedd. Defnyddiwyd cerbydau golff gyda brand S4C i gludo ymwelwyr o le i le, a buont yn atyniad poblogaidd yn ystod y digwyddiadau.

Trefnwyd sioeau teithiol a oedd yn gysylltiedig â rhaglenni blaenllaw. Gwelwyd taith goginio **Casa Dudley** yn ymweld â 12 o farchnadoedd bwyd ledled Cymru.

Gwelwyd S4C yn parhau i farchnata ei gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifainc. Mewn partneriaeth â TWF, sefydliad Bwrdd yr Iaith Gymraeg i annog trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref, cynhaliwyd sioe wedi'i seilio ar y rhaglen animeiddiedig i blant oedran meithrin **Holi Hana** mewn 10 canolfan hamdden.

Ymwelodd y daith Nadolig flynyddol, Sioe Planed Plant Bach, oedd wedi'i hanelu at blant dan oed ysgol, â 12 lleoliad arall.

Mynychwyd y ddau gynhyrchiad gan 6,000 o rieni a phlant.

Arweiniodd partneriaeth rhwng **Bandit**, sioe gerddoriaeth gwlt S4C, C2 Radio Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, at fandiau roc yn perfformio'n fyw mewn 20 o ysgolion gan gyrraedd oddeutu 6,000 o bobl ifanc yn y grŵp oedran 14-18 oed.

Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu helaeth er mwyn cynorthwyo ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod S4C ynghylch cynigion i ymestyn gwasanaethau i blant ar S4C. Trefnwyd cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Hysbyswyd grwpiau rhieni, ysgolion, Seneddwyr, aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, darlledwyr, rheoleiddwyr a phartïon eraill â diddordeb yn y cynlluniau. Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr gyflwyno'u sylwadau ar-lein. Cafwyd bron i 500 o ymatebion—nifer ohonynt gan blant ysgol—a bu'r ymateb yn hynod o gadarnhaol.

Bu pen-blwydd S4C yn 25 oed ym mis Tachwedd yn gyfle i drafod rôl cyhoeddus y sianel trwy gyfrwng cyfres o areithiau arbennig, cyfarfodydd a digwyddiadau, gan gynnwys ystod eang o randdeiliaid S4C. Cynhaliwyd digwyddiadau corfforaethol yng Nghaerdydd, Caernarfon a Llundain, ac yn ystod cynhadledd arbennig a drefnwyd gan Brifysgol Aberystwyth, trafodwyd cyfraniad y sianel i ddiwylliant Cymreig a darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Fel rhan o'i raglen atebolrwydd cyhoeddus, cynhaliodd Awdurdod S4C bedwar cyfarfod cyhoeddus —ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn Llanidloes, ym Motwnnog ac yn Aberaeron, gan roi cyfle i'r gwylwyr fynegi eu barn ynghylch y sianel.

Yn ystod 2007 cyfrannodd S4C at Fforwm Cyfathrebu Digital UK er mwyn hyrwyddo'r newid i ddigidol. Wrth i'r dyddiad trosglwyddo o analog i ddigidol yng Nghymru nesáu, bydd S4C yn darparu mwy o wybodaeth am y broses i'r gwylwyr.

Derbyniodd Gwifren Gwylwyr S4C (0870 6004141), sydd ar gael trwy gydol y flwyddyn i ateb ymholiadau gwylwyr, gyfanswm o 12,752 o alwadau ffôn, llythyrau, negeseuon ffacs a negeseuon e-bost.

# Communications

Effective communication with audiences was a key objective in 2007 as S4C prepared for digital switchover and the competitive challenges of the multi-channel environment.

News announcements, programme promotions, marketing campaigns and audience-facing events contributed to S4C's communications strategy to project the channel's provision of quality content across a range of platforms. The S4C website was developed as a core communications tool. Social networking sites were used to promote S4C content to youth audiences. A comprehensive media service including features, TV listings and electronic programme guides generated publicity for the channel.

A key activity was the launch of S4C's new brand identity—the channel's first rebrand in 13 years. Industry events were held in Cardiff and London and the contemporary new look received praise from viewers and won a number of leading industry awards. Sgrîn, S4C's quarterly magazine, was redesigned in keeping with the brand and distributed free to 37,850 subscribers.

S4C had a significant presence at the major cultural events including the Urdd National Eisteddfod, the Royal Welsh Show and the National Eisteddfod of Wales, providing further opportunities to connect with audiences. S4C—branded golf buggies, ferrying visitors from place to place, were a popular attraction at the events.

Roadshows linked to signature programmes were organised. The **Casa Dudley** culinary tour visited 12 food markets throughout Wales.

S4C continued to market its activities to children and young people. In partnership with TWF, the Welsh Language Board's organisation to encourage the transfer of Welsh in the home, a show based on the nursery age animation **Holi Hana** was held in 10 leisure centres.

The annual Christmas tour, Sioe Planed Plant Bach, also aimed at pre-school children, visited a further 12 locations.

A total of 6,000 parents and children attended the two productions.

A partnership between **Bandit**, S4C's cult music show, Radio Cymru's C2 strand and the Welsh Language Board, resulted in indie rock bands performing live in 20 schools reaching some 6,000 young people in the 14-18 age group.

A public consultation by the S4C Authority into proposals to extend children's services on S4C was supported by an extensive communications campaign. Public meetings were held in Cardiff and Caernarfon. Parents groups, schools, Parliamentarians, National Assembly members, broadcasters, regulators and other interested parties were informed about the plans. Respondents were given the opportunity to comment online. Nearly 500 responses were received —many from school children— and were overwhelmingly positive.

The 25th anniversary of S4C in November was an opportunity to debate the public role played by the channel through a series of keynote speeches, meetings and events involving a broad range of S4C stakeholders. Corporate events were held in Cardiff, Caernarfon and London while a special conference organised by Aberystwyth University debated the channel's contribution to Welsh culture and public service broadcasting.

As part of its public accountability programme, the S4C Authority held four public meetings—in Bridgend, Llanidloes, Botwnnog and Aberaeron—giving viewers the opportunity to air their views about the channel.

During 2007 S4C contributed to Digital UK's Communications Forum to promote digital switchover. As switchover approaches in Wales, S4C will be providing further information to viewers about the switchover process.

The S4C Viewers' Hotline (0870 6004141), which is available throughout the year to answer viewers' enquiries, received a total of 12,752 telephone calls, letters, fax messages and emails.

# Hyfforddiant a Datblygu

Mae S4C yn cyflawni rôl bwysig wrth hyrwyddo datblygiad sgiliau. Mae Strategaeth Raglenni S4C a'r newidiadau cyflym yn y sector cynhyrchu, ynghyd â gofynion amlgyfrwng, wedi golygu bod hyfforddi a datblygu staff, a'r ymrwymiad i hyfforddiant a datblygu yn y sector annibynnol, yn flaenoriaeth strategol ar gyfer S4C sy'n mynd y tu hwnt i ofyniad Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Mae S4C yn cydweithio'n agos â Skillset fel cyngor sgiliau'r sector ar gyfer y diwydiant clyweledol ac mae Iona Jones, Prif Weithredwr S4C, yn aelod o Fwrdd Skillset ac yn gadeirydd Panel Skillset Cymru. Mae S4C yn aelod o'r Grŵp Strategaeth Sgiliau Teledu a gydlynir ar lefel genedlaethol gan Skillset. Yn ogystal, mae Iona Jones yn un o Lywodraethwyr y National Film and Television School (NFTS).

Mae S4C yn un o'r partïon yn y memorandwm o ddealltwriaeth a lofnodwyd gydag Ofcom, Skillset, Pact, TAC a darlledwyr eraill sy'n amlinellu'r fframwaith rheoleiddio ar y cyd er mwyn monitro gweithgarwch hyfforddi, ac mae'n cyflwyno data i'r Broadcasting Training and Skills Regulator (BTSR) bob blwyddyn. Fel rhan o'r broses hon yn 2007, aeth y BTSR ati i gynnal archwiliad o'r fframwaith a'r trefniadau hyfforddi, a daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan S4C ddull gweithredu da wrth ddelio â hyfforddiant a datblygiad personol a gyrfaol unigolion, a'i fod yn parhau i esblygu.

Gwnaethpwyd gwaith helaeth yn 2007 i ddatblygu Fframwaith Hyfforddiant Skillset Cymru newydd gyda Skillset. Bydd y fframwaith hwn yn sicrhau dull gweithredu mwy strategol tuag at ddatblygiad sgiliau, gyda gofynion hyfforddi ar draws y sector cyfan yn cael eu coladu'n ganolog am y tro cyntaf yng Nghymru, ac yn ei dro bydd hyn yn dylanwadu ar y buddsoddiad mewn darpariaeth dysgu. Bydd S4C yn parhau gyda'i pholisi o ofyn i bob cwmni cynhyrchu gyflwyno rhaglen hyfforddi fel un o amodau dyfarnu comisiwn iddynt.

Bellach, mae Bwrdd Cyfarwyddwyr S4C yn gyfrifol yn uniongyrchol am nodi blaenoriaethau hyfforddiant a datblygu sy'n gysylltiedig ag amcanion busnes S4C, ac am asesu effaith y ddarpariaeth hyfforddiant ar effeithlonrwydd busnes. Caiff buddsoddiad mewn hyfforddiant ei neilltuo yn unol â'r meysydd blaenoriaeth hyn. Mae Polisi Hyfforddiant a Datblygu S4C yn sicrhau y dylai penderfyniadau sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygu gael eu gwneud mewn ffordd deg a chyson, ac y dylid sicrhau cyfle cyfartal i'r holl staff.

Darparwyd ystod eang o seminarau a darpariaeth hyfforddiant mewnol ac allanol i gyflogeion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyrsiau dysgu Cymraeg neu wella Cymraeg. Datblygwyd ffyrdd amrywiol megis dysgu cyfunol (gan gynnwys pecynnau pwrpasol, mentora a hyfforddi) a thechnolegau rhyngrwyd er mwyn gallu cynnig dulliau a ffurfiau mwy arloesol o ddarparu hyfforddiant a datblygiad i'r holl staff.

Unwaith eto, bu S4C yn cymryd rhan yn y Diwrnod Sgiliau Cenedlaethol, gan gynnig gweithdai a oedd yn hyrwyddo sgiliau newydd mewn ffordd ddifyr a hwyliog. Mae S4C wedi bod yn ymwneud â'r elusen Arts and Business ers deng mlynedd ac yn ystod 2007, bu pedwar aelod uwch o staff yn ymwneud â Rhaglenni Datblygiad Proffesiynol amrywiol gan gynnig cyngor ac arweiniad i sefydliadau celfyddyd amrywiol. Yn ogystal, gwelwyd staff yn mynychu cyrsiau galwedigaethol ym maes cyllid, y gyfraith, cysylltiadau cyhoeddus ac adnoddau dynol.

### Buddsoddwyr Mewn Pobl (IIP)

Mae S4C wedi parhau i weithredu'r egwyddorion a ymgorfforir yn ei statws fel Buddsoddwr Mewn Pobl (IIP). Mae S4C wedi cynnal ei chydnabyddiaeth yn erbyn Safon IIP yn dilyn yr asesiad 3 blynedd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2006.

# Training & Development

S4C plays an important role in promoting skills development. S4C's Programme Strategy and the rapid changes in the production sector and multimedia requirements have made the training and developing of staff, and the commitment to training and development in the independent sector, a strategic priority for S4C over and above the requirement of the Communications Act 2003.

S4C works closely with Skillset as the sector skills council for the audiovisual industry and Iona Jones, S4C's Chief Executive, is a member of the Skillset Board and chair of the Skillset Cymru Panel. S4C is a member of the TV Skills Strategy Group co-ordinated on a national level by Skillset. Iona Jones is also a Governor of the National Film and Television School (NFTS).

S4C is party to the memorandum of understanding signed with Ofcom, Skillset, Pact, TAC and other broadcasters outlining the co-regulatory framework for monitoring training activity, and submits data on an annual basis to the Broadcasting Training and Skills Regulator (BTSR). As part of this process in 2007, the BTSR conducted an audit of training arrangements and framework and the report concluded that S4C had a very good approach to training and individuals' career and personal development, and that it is continuing to evolve.

Extensive work was undertaken in 2007 in developing the new Skillset Cymru Training Framework with Skillset. This framework will ensure a more strategic approach to skills development with sector wide training requirements collated centrally for the first time in Wales, and this in turn will inform the investment in learning provision. S4C will continue with its policy of asking all production companies to present a training programme as a condition of awarding a commission.

The S4C Board of Directors now takes direct responsibility for identifying training and development priorities linked to S4C's business objectives, and assessing the impact of training provision on business efficiency. Investment in training is allocated according to these priority areas. The S4C Training and Development Policy ensures that decisions relating to training and development should be made fairly and consistently, and equality of opportunity should be provided for all staff.

A broad range of seminars and internal and external training provision was made available to employees during the year, including courses to learn or improve Welsh. Diverse ways such as integrated learning (including tailored packages, mentoring and coaching) and internet technologies have been developed so as to offer more innovative ways and formats of delivering training and development to all staff.

S4C again participated in the National Skills Day offering workshops promoting new skills in a fun and entertaining way. S4C has been engaged with the charity Arts and Business for ten years and during 2007 four senior members of staff have been involved with various Professional Development Programmes offering advice and guidance to various arts organisations. Staff also attended vocational courses in the fields of finance, legal, public relations and human resources.

## Investors In People (IIP)

S4C has continued to implement the principles enshrined in its status as an Investor In People (IIP). S4C has maintained its recognition against the IIP Standard following the 3 year assessment held in June 2006.

# Hyfforddiant a Datblygu

## Ysgoloriaethau S4C

Fel rhan o ymrwymiad S4C i chwaraeon, sefydlwyd ysgoloriaeth newydd mewn partneriaeth â Welsh Athletics Ltd, gan gynnig cymorth ariannol i athletwyr ifanc i'w helpu i dalu costau hyfforddi er mwyn meithrin eu sgiliau ar y trac a'r maes. Rhoddwyd cymorth i Lianne Clarke, Non Stanford, David Guest a Brigid Eades.

Yn dilyn llwyddiant gwobrau Ysgoloriaeth Golff 2006, cyhoeddodd S4C a Datblygu Golff yng Nghymru ddwy ysgoloriaeth newydd i helpu dau chwaraewr ifanc i feithrin eu talent a'u sgiliau. Bydd y wobr ariannol yn cynorthwyo Jamie Howe a Catherine O'Connor i dalu am hyfforddiant, offer a chostau cystadlu, a byddant hefyd yn mynychu dosbarthiadau meistr arbennig a roddir gan chwaraewyr golff proffesiynol blaenllaw o Gymru.

Dros y bymtheg mlynedd ddiwethaf, mae S4C wedi gweithio gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i gynnig Ysgoloriaeth Syr Geraint Evans, gan gynnig cymorth ariannol i berfformwyr. Yn ystod blwyddyn academaidd 2007/2008, dyfarnwyd ysgoloriaethau i Jennifer Hazel Walker ac Allan Smith.

Fel rhan o ymrwymiad S4C i ragoriaeth greadigol, rhoddwyd gwobr arbennig i'r pianydd clasurol Llŷr Williams. Bydd yr ysgoloriaeth yn talu am ddosbarthiadau meistr arbenigol, gan alluogi Llŷr i ddilyn rhai o'r pianyddion gorau yn y byd ac i astudio gweithiau a llawysgrifau gwreiddiol.

Dyfarnwyd ysgoloriaeth newyddiadurol T Glynne Davies S4C i Elen Moore, a fydd yn ei galluogi i ddilyn cwrs MA yn y Ganolfan Astudiaethau Newyddiadurol yng Nghaerdydd. Yn ogystal, dyfarnodd S4C ysgoloriaeth animeiddio i Sally Pearce sy'n astudio yn NFTS, ac roedd yn falch o weld ei llwyddiant wrth iddi gael ei henwebu am wobr yng ngŵyl Madcat yn San Francisco yn ystod y flwyddyn.

## Nawdd

Mae'r Awdurdod yn mynnu bod unrhyw nawdd yn gysylltiedig â gweithgareddau craidd S4C, ac felly yn cryfhau'r cyswllt rhwng S4C a'u gwylwyr neu'r cyswllt rhwng S4C a'r diwydiant teledu.

Rhoddwyd cymorth i'r canlynol yn ystod 2007:

- Bardd Plant Cymru
- Gŵyl Ffilmiau Myfyrwyr Ffresh
- Gŵyl Ffilmiau Iris
- BAFTA Cymru
- Promax UK
- Gŵyl Cyfryngau Celtaidd
- Y Gymdeithas Deledu Frenhinol
- Fast Growth 50
- Pencampwriaeth Golff Merched Ewrop Cymru 2007
- Cynhadledd Cyfrwng Abertawe 2007

Yn ogystal, mae'n partneriaeth gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn fwy na chytundeb darlledu yn unig, ac mae'n cynnig cyfleoedd nawdd a secondio.

# Training & Development

## S4C Scholarships

As part of S4C's commitment to sport, a new scholarship was established in partnership with Welsh Athletics Ltd, offering young athletes financial assistance towards coaching costs for developing their skills on track and field. The awards were made to Lianne Clarke, Non Stanford, David Guest and Brigid Eades.

Following the success of the 2006 Golf Scholarship awards, S4C and Golf Development Wales announced new scholarships to help two young players to develop their talent and skills. The financial award will support Jamie Howe and Catherine O'Connor with coaching, equipment and competition costs, and they will also attend special master classes by leading golf professionals from Wales.

For the past fifteen years, S4C has worked with the Royal Welsh College of Music and Drama to offer the Sir Geraint Evans Scholarship offering financial assistance to performers. In the academic year 2007/2008, scholarships were awarded to Jennifer Hazel Walker and Allan Smith.

As part of S4C's commitment to creative excellence a special award was made to the classical pianist Llŷr Williams. The scholarship will fund specialised master classes, enable Llŷr to shadow some of the world's greatest pianists and to study original manuscripts and works.

Elen Moore was awarded S4C's T Glynne Davies journalism scholarship, which will enable her to pursue an MA course at the Centre for Journalism Studies in Cardiff. S4C also awarded an animation scholarship to Sally Pearce studying at the NFTS, and were pleased with her success in being nominated for an award at the Madcat festival in San Francisco during the year.

## Sponsorship

The Authority requires that sponsorship is connected with S4C's core activities, and strengthens the link between S4C and viewers or the link between S4C and the television industry.

The following received support in 2007:

- Wales Children's Poet
- Ffresh Student Film Festival
- Iris Film Festival
- BAFTA Cymru
- Promax UK
- Celtic Media Festival
- Royal Television Society
- Fast Growth 50
- Wales Ladies Golf Championship of Europe 2007
- Cyfrwng Conference Swansea 2007

Our partnership with the Urdd National Eisteddfod is also more than a broadcasting contract, and includes secondment and sponsorship opportunities.

# Cynllun Corfforaethol 2007

Mae Awdurdod S4C yn cymeradwyo Cynllun Corfforaethol sy'n cynnwys amcanion craidd S4C ac yn adnabod targedau penodol ar gyfer y flwyddyn. Gydol y flwyddyn, cyflawnodd S4C ei dyletswydd statudol i sicrhau bod ei chyfrifoldebau darlledu cyhoeddus dros ei gwasanaethau yn cael eu bodloni. Mae manylion y gwasanaethau i'w gweld o dan Rôl yr Awdurdod. Bodlonwyd y rhan fwyaf o'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2007. Gellir gweld manylion llawn am y Cynllun Corfforaethol ac Adroddiad Monitro 2007 ar ein gwefan sef s4c.co.uk.

## Targedau Ofcom

Cytunwyd ar dargedau blynyddol gydag Ofcom ar gyfer 2007. Darparwyd adroddiadau misol i Ofcom ynghylch y targedau hynny. Gwelir manylion y targedau a'r canlyniadau a gyflawnwyd yn nhabl Targedau a Chanlyniadau Gwasanaeth—2007.

## Polisïau

Yn ystod 2007 aeth S4C ati i weithredu, cyflwyno neu ddiweddaru'r polisïau canlynol:

- i Polisi a Chanllawiau ar gyfer Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Darllediadau Etholiadol Pleidiau 2007;
- ii Cynllun Gweithredu Amgylcheddol S4C;
- iii Datganiad Polisi Caffael S4C

Mae'r Awdurdod yn fodlon y gweithredir y polisïau'n briodol.

Mae polisïau S4C ar gael i staff ar y fewnrwyd ac mae'r rhai perthnasol ar gael ar y Wefan Gynhyrchu yn ogystal.

# Corporate Plan 2007

The S4C Authority approves a Corporate Plan which includes S4C's core objectives and identifies specific targets for the year. Throughout the year, S4C fulfilled its statutory duty to ensure that the public broadcasting responsibilities for its services were fulfilled. Details of the services appear under the Role of the Authority. Most of the targets set in the Corporate Plan were met during 2007. Full details of the Corporate Plan and the 2007 Monitoring Report are available on our website, s4C.co.uk.

## Ofcom's targets

Annual targets were agreed with Ofcom for 2007 and monthly reports were provided to Ofcom on those targets. Details of the targets and the results achieved can be found in the table Service Targets and Results—2007.

## Policies

During 2007 the following policies were either implemented, introduced or updated by S4C:

i Policy and Guidelines for Party Political Broadcasts and Party Election Broadcasts 2007;
ii S4C Environmental Plan;
iii S4C Procurement Policy Statement

The Authority is satisfied that the policies are applied appropriately.

S4C's policies are available to staff on the intranet and those which are relevant are also available on the Production Website.

## Côd Ymarfer a Thelerau Masnachu

Mae S4C yn gweithredu proses gomisiynu yn unol â Deddf Gyfathrebiadau 2003, y Côd Ymarfer (a gymeradwywyd gan Ofcom) a'r Telerau Masnachu y cytunwyd arnynt â TAC. Mae'r gwaith o adaseinio hawliau mewn rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C yn ystod y cyfnod rhwng 1982 a 2003 yn parhau.

## Gweithdrefnau a Pholisïau AD

Fel rhan o'r broses arfarnu yn 2007, adolygwyd a diweddarwyd disgrifiadau swydd. Bu hyn yn fodd i'n galluogi i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu swyddi. Yn ogystal, bu'r broses o gymorth i S4C, yn ystod y broses recriwtio, i sicrhau bod hysbysebion swyddi yn adlewyrchu'r sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol yn fanwl.

Mae S4C yn rhoi cryn werth ar gynnal amgylchedd iach i'w staff ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles. Yn 2007, dosbarthwyd holiadur cyfrinachol i bob aelod o staff er mwyn sicrhau bod S4C yn bodloni anghenion ei chyflogeion.

Mae S4C yn hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg er mwyn annog gweithlu amrywiol ac mae wedi ymestyn ei Pholisi Gweithio Hyblyg i bob aelod o staff. Yn 2007, estynnodd S4C ei Pholisi Absenoldeb Tadolaeth er mwyn galluogi tadau newydd i fod yn absennol am 10 diwrnod gyda chyflog llawn. Yn ogystal, mae gan S4C Bolisi Absenoldeb Mamolaeth estynedig sy'n rhoi'r hawl i famau newydd fod yn absennol am 14 wythnos gyda chyflog llawn. O 1 Ionawr 2008, estynnwyd hyn i 18 wythnos o absenoldeb gyda chyflog llawn.

Ym mis Tachwedd 2007 hefyd, yn ogystal â'i Pholisi Lwfans Gofal Plant, penderfynodd S4C gynnig y cyfle i rieni cymwys gymryd rhan mewn cynllun Talebau Gofal Plant.

Mae polisïau S4C ar gael i staff ar y fewnrwyd ac maent hefyd ar gael ar y Wefan Gynhyrchu pan fo hynny'n berthnasol.

## Code of Practice and Terms of Trade

S4C operates a commissioning process in accordance with the Communications Act 2003, the Code of Practice (approved by Ofcom) and the Terms of Trade agreed with TAC. Work on reassigning rights in programmes commissioned by S4C in the period from 1982 to 2003 is ongoing.

## HR Policies and Procedures

As part of the appraisal process in 2007, job descriptions were reviewed and updated. This enabled us to ensure that staff had the required skills and knowledge for their posts. The process also assisted S4C, during the recruitment process, to ensure that job advertisements accurately reflected the required skills and abilities.

S4C places a high value on maintaining a healthy environment for its staff and is committed to protecting their health, safety and wellbeing. In 2007 a confidential questionnaire was sent to all staff in order to ensure that S4C was meeting the needs of its employees.

S4C promotes flexible working in order to encourage a diverse workforce and has extended its Flexible Working Policy to all staff. In 2007 S4C extended its Paternity Leave Policy to allow new fathers to take 10 days leave at full pay. In addition, S4C has an enhanced Maternity Leave Policy which gives new mothers the right to 14 weeks leave on full pay. As of 1 January 2008, this has been extended to 18 weeks leave on full pay.

Also, in November 2007, in addition to its Childcare Allowance Policy, S4C provided eligible parents with the option of participating in a Childcare Vouchers scheme.

S4C's policies are available to staff on the intranet and are also made available on the Production Website where relevant.

# Targedau a Chanlyniadau Gwasanaeth 2007

**Targedau Ofcom**
Ofcom targets

| Rhaglenni<br>Programmes | Targed<br>Target | Canlyniad<br>Result |
|---|---|---|
| Amser darlledu a roddwyd i gynyrchiadau o'r sector annibynnol<br>Broadcasting time allocated to productions from the independent sector | 25% | 83% |
| Rhaglenni gwreiddiol (oriau brig 18.00 i 22.30)<br>Original programmes (peak hours 18.00 to 22.30) | 90% | 100% |
| Rhaglenni gwreiddiol (holl oriau)<br>Original programmes (all hours) | 80% | 98% |
| Rhaglenni Materion Cyfoes (holl oriau)<br>Current Affairs Programmes (all hours) | 60 awr y flwyddyn<br>60 hours per annum | 85 awr<br>85 hours |
| Rhaglenni Materion Cyfoes (oriau brig 18.00 i 22.30)<br>Current Affairs Programmes (peak hours 18.00 to 22.30) | 30 awr y flwyddyn<br>30 hours per annum | 56 awr<br>56 hours |
| Newyddion (holl oriau)<br>News (all hours) | 200 awr y flwyddyn<br>200 hours per annum | 232 awr<br>232 hours |
| Newyddion (oriau brig 18.00 i 22.30)<br>News (peak hours 18.00 to 22.30) | 150 awr y flwyddyn<br>150 hours per annum | 178 awr<br>178 hours |
| Un rhaglen newyddion ddyddiol yn ystod yr oriau brig (oriau brig 18.00 i 22.30)<br>One daily news programme during peak hours (peak hours 18.00 to 22.30) | 1 rhaglen<br>1 programme | 1 rhaglen<br>1 programme |
| Isdeitlo<br>Subtitling | 71% | 76.3% |
| Disgrifiad Sain<br>Audio Description | 8% | 9.7% |
| Arwyddo<br>Signing | 2% | 2.03% |

# Service Targets & Results 2007

## Targedau Corfforaethol
Corporate targets

| Rhaglenni<br>Programmes | Targed<br>Target | Canlyniad<br>Result |
|---|---|---|
| Nifer yr oriau o raglenni Cymraeg ar analog bob wythnos<br>Number of hours per week of Welsh language programmes on analogue | 35 awr yr wythnos<br>35 hours per week | 47 awr a 15 munud<br>47 hours 15 minutes |
| Cyfartaledd o 10 awr o raglenni bob wythnos gydag isdeitlau Cymraeg ar analog a digidol<br>Average of 10 hours of programming per week on analogue and digital with Welsh subtitles | 10 awr yr wythnos<br>10 hours per week | Wedi'i gyflawni<br>Achieved |
| Nifer yr oriau o ffuglen wreiddiol yn ystod y flwyddyn<br>Number of hours of original fiction per annum | 100 awr y flwyddyn<br>100 hours per annum | 84 awr a 15 munud<br>84 hours and 15 minutes |
| Nifer yr oriau o raglenni plant gwreiddiol yn ystod y flwyddyn<br>Number of hours of original children's programmes per annum | 140 awr y flwyddyn<br>140 hours per annum | 213 awr a 25 munud<br>213 hours and 25 minutes |
| Cynnal ein darpariaeth i blant yn ystod gwyliau'r ysgol<br>Maintaining our output for children during school holidays | | Wedi'i gyflawni<br>Achieved |
| Neilltuo o leiaf £70m ar gyfer cynnwys ein gwasanaethau<br>Allocating at least £70m to programme content on our services | | Gwariwyd £73.2m<br>Spent £73.2m |

# Cydymffurfiaeth Rhaglenni

## Cwynion

Fel corff annibynnol sy'n goruchwylio gwaith S4C, mae Awdurdod S4C yn gyfrifol am bennu'r fframwaith er mwyn delio â chwynion. Mae hefyd yn gweithredu fel y safonwr olaf yn S4C o ran cwynion.

Bydd pob cwyn y bydd angen ymateb iddi ac sy'n cael ei gwneud cyn pen 90 diwrnod o ddyddiad y rhaglen berthnasol, yn cael ymateb cyn pen 5 diwrnod gan Wifren Gwylwyr S4C fel arfer, a fydd yn cadarnhau bod y gŵyn wedi cyrraedd a chan nodi pryd y gallant ddisgwyl cael ateb.

Os gwneir cwyn ddifrifol, gall Ysgrifennydd yr Awdurdod enwebu unigolyn yn S4C i ymateb i'r gŵyn cyn pen 15 diwrnod. Yn dilyn yr ymateb hwn, os bydd y cwynwr yn dymuno mynd â'r gŵyn gam ymhellach, gall ysgrifennu at yr Ysgrifennydd yn y lle cyntaf, yna at Bwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod. Gellir gweld copi o bolisi S4C ar gyfer delio â chwynion ar wefan S4C.

## Cydymffurfiaeth Rhaglenni

Mae Deddf Gyfathrebiadau 2003 yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdod S4C i sicrhau bod ei gwasanaethau teledu cyhoeddus yn cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf a gofynion rheoleiddio eraill. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion Deddf Darlledu 1990 a Chôd Darlledu Ofcom. Yn ogystal, mae Awdurdod S4C wedi mabwysiadu canllawiau ynghylch y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn rhaglenni.

Gellir cyfeirio cwynion ynghylch cydymffurfiaeth rhaglenni, sy'n ymwneud â gwasanaethau S4C, i S4C neu Ofcom. Os na fydd cwynion a wneir i S4C yn cael eu datrys ar lefel weithredol, cânt eu cyfeirio i Ysgrifennydd yr Awdurdod, ac i Bwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod wedi hynny.

Mae S4C yn gweithredu gweithdrefn gydymffurfio fewnol i sicrhau bod ei gwasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r codau a'r canllawiau perthnasol. Yn arbennig, rhennir rolau'r swyddogion a'r Awdurdod rhwng y cyfnod cyn darlledu ac ar ôl darlledu, ac mae'r Awdurdod yn gweithredu system fonitro ôl-ddarlledu.

Yn ystod 2007, aeth y tîm monitro (sy'n hollol annibynnol o swyddogion S4C ac Awdurdod S4C) ati i adolygu'r allbwn Cymraeg ar wasanaeth analog S4C ac S4C digidol a rhaglenni Channel 4 a ailamserlennwyd ar y gwasanaeth analog. Mae corff ar wahân, y Grŵp Cydymffurfiaeth, yn cyfarfod yn fisol i drafod ac i adolygu casgliadau'r tîm monitro.

Cyflwynodd cadeirydd annibynnol y Grŵp Cydymffurfiaeth adroddiadau misol i'r Awdurdod, gan nodi'r prif faterion a drafodwyd gan y Grŵp a pherfformiad y gwasanaethau o ran cydymffurfiaeth reoliadol.

Yn ogystal, yn ystod 2007, cyflwynodd y tîm monitro adroddiad i'r Awdurdod ynghylch cynrychiolaeth pleidiau gwleidyddol yn rhaglenni Cymraeg S4C yn ystod y cyfnod ymgyrchu ar gyfer etholiadau'r Cynlluniad Cenedlaethol yn 2007.

# Programme Compliance

## Complaints

As an independent body overseeing the work of S4C the S4C Authority is responsible for setting the framework for handling complaints. It also operates as the final arbiter within S4C in relation to complaints.

All complaints that require a response and that are received within 90 days of the relevant programme will receive a response within 5 days, normally from S4C's Viewers Hotline, to confirm that the complaint has been received and indicating when to expect an answer.

In the event of a serious complaint the Secretary to the Authority can nominate an individual within S4C to respond within 15 days. Following this response, if the complainant wishes to take the complaint further he/she can write in the first instance to the Secretary and then the Complaints and Compliance Committee of the Authority. A copy of S4C's complaints handling policy can be found on S4C's website.

## Programme Compliance

The Communications Act 2003 places a statutory duty on the S4C Authority to ensure that its public television services conform to and comply with the provisions of the Act and other regulatory requirements. These include provisions contained within the Broadcasting Act 1990 and the Ofcom Broadcasting Code. In addition, the S4C Authority has adopted guidelines in relation to the use of the Welsh language within programmes.

Programme compliance complaints in relation to S4C's services may be referred to either S4C or to Ofcom. If complaints received by S4C are not resolved at an executive level they are referred for determination to the Secretary to the Authority and thereafter to the Authority's Complaints and Compliance Committee.

S4C operates an internal compliance procedure to ensure that its public services comply with the relevant codes and guidelines. In particular the roles of the executive and the Authority are split pre and post transmission and the Authority operates a post-broadcast monitoring system.

During 2007 the monitoring team (which is wholly independent of the S4C executive and the S4C Authority), reviewed the Welsh language output on S4C's analogue service and S4C digidol and Channel 4 programmes which were rescheduled on the analogue service. A separate body, the Compliance Group, meets monthly to discuss and review the conclusions of the monitoring team.

The independent chair of the Compliance Group presented monthly reports to the Authority, noting the main issues which were discussed by the Group and the services' performance in relation to regulatory compliance.

In addition, during 2007 the monitoring team presented a report to the Authority on the representation of political parties in S4C's Welsh language programmes during the campaigning period of the National Assembly elections in 2007.

# Cydymffurfiaeth Rhaglenni

Yn dilyn ei drafodaethau, mae'r Grŵp Cydymffurfiaeth yn cyfeirio'r materion mwyaf difrifol a drafodir gan y Grŵp i'r Awdurdod. Yn ystod 2007, cyfeiriwyd y mater canlynol i'r Awdurdod gan y Grŵp:

**Didueddrwydd priodol a chywirdeb priodol mewn newyddion**
**Y Byd ar Bedwar**
**ITV Cymru**
**9 Ionawr 2007**

Yn ystod y bennod o **Y Byd ar Bedwar** a ddarlledwyd ar 9 Ionawr 2007, defnyddiwyd deunydd o bennod a ddarlledwyd yn wreiddiol ar 29 Tachwedd 2005. Roedd yr eitem ym mhennod Ionawr 2007 yn ymwneud ag agor clwb dawnsio polyn, Clwb Yoko, yn Aberystwyth. Roedd y bennod hefyd yn cynnwys deunydd a oedd yn dangos myfyrwyr yn protestio. Nid oedd y brotest yn ymwneud ag agor y clwb, ond yn hytrach, roedd yn ymwneud â diogelwch menywod yn Aberystwyth gyda'r hwyr. Fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw esboniad bod y ddwy olygfa yn ymwneud â digwyddiadau ar wahân.

